



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru

Proffiliau un
dudalen

Pwysig i –
Pwysig ar gyfer

Beth sy'n gweithio a
ddim yn gweithio

Dyheadau

Y ffordd orau
i'm cefnogi

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: 179/2015

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2015

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru

Cynulleidfa	Pob ysgol, coleg a lleoliad cyn ysgol.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ac enghreifftiau ynghylch sut y gellir defnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn lleoliadau addysg i gefnogi dysgwyr 0–25 oed.
Camau i'w cymryd	Mae hyn yn arfer da a argymhellir.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i: Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 5789 e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu
Dogfennau perthnasol	Mae dwy ddogfen ganllawiau eraill sy'n sôn am ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu <i>Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion</i> (2015) dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/developing-as-a-person-centred-organisation/?skip=1&lang=cy <i>Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion</i> (2015) http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?lang=cy Atgynhyrchwyd delweddau drwy ganiatâd Julie Barclay. Mae'r graffig Dyheadau ar dudalen 42 yn cael ei atgynhyrchu drwy ganiatâd Jon Ralphs. Ni chafodd y delweddau/graffigau eu creu'n benodol ar gyfer y dogfennau hyn.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion ar waith yn Sir Gaerfyrddin	6
Proffiliau un dudalen	11
Offeryn gwerthfawrogi	31
Diwrnod da – diwrnod gwael	36
Dyheadau	42
Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio	47
Siartiau cyfathrebu	53
Proffiliau a chytundebau gwneud penderfyniadau	59
Cylch perthynas	64
Logiau dysgu	68
Offeryn 4 plws 1	72
Crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion	77
Mwy o wybodaeth am arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion	78

Cyflwyniad

Meddyliwch am ddosbarth yr ydych yn ei adnabod yn dda. Nawr meddyliwch am y plentyn yn y dosbarth hwnnw yr ydych yn ei adnabod leiaf. Ydych chi'n siŵr ei fod ef neu hi yn dysgu gystal ag y gall? Oes ganddyn nhw gryfderau a thalentau na wyddoch amdanynt? A oes unrhyw beth yn eu dal yn ôl y medrech ei drin pe byddech chi'n gwybod mwy amdano?

Mae pawb ohonom yn gwybod ei bod yn haws addysgu a chefnogi pobl ifanc pan fyddwn yn eu deall, a dyna pam fod dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion yng nghanol arfer addysg gorau heddiw. Dyna'r ddamcaniaeth o leiaf – ond sut y gallwn weithredu arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ein hysgolion a cholegau bob dydd a gwneud iddynt weithio i bawb?

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio ystod o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion fydd yn eich helpu i weithio'n unigol gyda'r dysgwyr yr ydych yn eu haddysgu a'u cefnogi. Maent yn ymarferol ac yn rhwydd eu defnyddio, ac yn rhoi gwybodaeth y gallwch ei defnyddio'n uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Yn bennaf oll, maent yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, gan eich galluogi i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw, ac i ddarganfod y ffyrdd gorau i'w cefnogi. Nid dim ond rhestr o heriau neu broblemau i'w goresgyn fydd gennych chi, oherwydd byddwch yn casglu a rhannu'r hyn sydd bwysicaf i ddysgwyr ac ar eu cyfer, o'u safbwynt nhw a safbwynt y bobl sy'n agos atynt. Bydd gennych ddarlun llawn sy'n wirioneddol yn canolbwyntio ar yr unigolyn dan sylw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu set o adnoddau i hyrwyddo a chefnogi datblygu arfer sy'n canolbwyntio ar oedolion yn y blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau. Yn y cyhoeddiad hwn, rydym yn disgrifio 10 offeryn meddwl allweddol sy'n canolbwyntio ar unigolion y gellir eu defnyddio gyda dysgwyr, rhieni, staff a chyrff llywodraethu.

Mae hefyd ddau gyhoeddiad arall fydd yn helpu unrhyw lleoliad addysg i ddod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion sef:

- offeryn hunanasesu i'ch helpu i ddynodi eich lefel bresennol o arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion a chynllunio camau nesaf addas
- pecyn cymorth sy'n rhoi canllawiau ymarferol ar sut i gynnal adolygiadau effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion, yn cynnwys llyfrynau paratoi ar gyfer dysgwyr, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Mae'r holl gyhoeddiadau hyn ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

Pa wahaniaeth a wnaiff defnyddio'r offerynnau meddwl yma?

Os ydych chi'n defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion ym mhob agwedd o fywyd eich ysgol neu goleg, byddwch yn canfod fod eich holl ddysgwyr yn dysgu'n fwy effeithiol, oherwydd bod eu dysgu yn adlewyrchu eu cryfderau a'u diddordebau unigol. Bydd perthnasoedd yn fwy cynhyrchiol a chadarnhaol. Bydd staff, dysgwyr a rhieni yn ei chael yn haws rhannu gwybodaeth a bydd cyfathrebu yn llifo'n rhwyddach.

Os ydych yn ymwneud â chynnal adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion, mae'r offerynnau meddwl yn y llyfr yma yn ei gwneud yn rhwydd casglu'r wybodaeth rydych ei hangen, i fyfyrion ar yr hyn rydych wedi ei drafod, ac i ganolbwyntio ar y camau y dymunwch eu cymryd. Maent yn eich galluogi i gymryd ymagwedd anffurfiol at gyfarfodydd adolygu fel eu bod yn hamddenol ac yn anfygythiol i bawb, ac ar yr un pryd yn rhoi dull mwy trwyadl a systematig i chi o gynnal adolygiadau gwirioneddol effeithiol sy'n arwain at gynllunio cynhyrchiol, gweithredu a deilliannau sy'n cael gwahaniaeth grymus ar fywydau dysgwyr.

Ar gyfer beth y gallwch ddefnyddio'r offerynnau meddwl?

Gallwch ddefnyddio'r offerynnau meddwl i gasglu a rhannu gwybodaeth, i gynllunio a monitro eich camau gweithredu, ym mhob rhan o'ch ysgol neu goleg. Defnyddiwch nhw gyda dysgwyr, staff, llywodraethwyr – unrhyw un sy'n ymwneud â bywyd eich ysgol. Mae rhai ysgolion a cholegau i ddechrau yn creu **proffiliau un dudalen** ar gyfer grŵp bychan o blant a all fod angen peth cefnogaeth ychwanegol. Mae ysgolion eraill yn creu **proffiliau un dudalen** ar gyfer pob dysgwr mewn dosbarth, neu flwyddyn, neu hyd yn oed yr ysgol gyfan. Gallwch ddechrau yn fach ac adeiladu ar eich profiad, neu gallwch ddechrau yn fawr os dymunwch i bawb gymryd rhan ac ennyn eu diddordeb yn syth.

Mae llawer o ysgolion yn dechrau drwy gael staff i greu eu **proffiliau un dudalen** eu hunain gyda'i gilydd. Drwy wneud hyn, maent yn dysgu am y broses o'u profiad eu hunain. Yn aml maent hefyd yn canfod fod gan eu cydweithwyr sgiliau a thalentau annisgwyl, gan eu galluogi i gefnogi ei gilydd yn llawer gwell, ac adeiladu tîm llawer cryfach fel canlyniad.

Sut mae dechrau arni?

Mae'r **proffil un dudalen** yn lle da i ddechrau, oherwydd ei bod yn ffordd mor rymus ac effeithiol o gasglu a rhannu'r wybodaeth bwysicaf am unigolion. Chi sydd i benderfynu ar y camau nesaf.

Gallwch ddefnyddio'r offerynnau mewn unrhyw drefn, ac edrych eto ar offerynnau dros gyfnod. Byddwch yn canfod fod defnyddio'r offerynnau yn sicrhau gwybodaeth y byddwch eisiau ei hychwanegu at y **proffiliau un dudalen**, ac mae hyn yn wych oherwydd bod **proffil un dudalen** yn offeryn deiniol a ddylai ddangos newidiadau, twf a datblygiadau.

Ar gyfer beth mae pob offeryn?

Gellir defnyddio'r 10 offeryn meddwl canolbwyntio ar y person yma mewn unrhyw drefn, er bod llawer o ysgolion a cholegau'n dechrau gyda **phroffil un dudalen**. Ar y llaw arall, mae pob offeryn meddwl yn cynnig ffordd werthfawr o gasglu gwybodaeth y gellid ei chynnwys mewn **proffil un dudalen**, felly gallwch benderfynu dechrau gyda, er enghraifft, y dull meddwl **gwerthfawrogi**.

Proffiliau un dudalen

Yn sylfaen cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion mae **proffil un dudalen** yn cynnwys gwybodaeth allweddol am gymeriad, doniau a thalentau unigolion; beth sy'n bwysig iddynt; a'r ffordd orau i'w cefnogi.

Offeryn gwerthfawrogi

Defnyddir yr offeryn yma i gasglu gwybodaeth ar beth mae pobl eraill yn ei hoffi ac edmygu am unigolyn; eu doniau, talentau a diddordebau.

Diwrnod da – diwrnod gwael

Defnyddir yr offeryn yma i gasglu gwybodaeth ar beth sy'n gwneud diwrnod unigolyn yn dda neu'n wael, a'r hyn y gallwch ei wneud i sicrhau eu bod yn cael mwy o ddyddiau da.

Dyheadau

Yn eich helpu i ganfod, yn seiliedig ar ddoniau a thalentau unigolyn, yr hyn sy'n bwysig iddynt, beth maent eisiau fod, a beth maent eisiau ei wneud. Pa gamau allan nhw eu cymryd?

Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio

Ciplun o safbwyntiau gwahanol bobl o sut mae pethau, beth sy'n gweithio'n dda a beth ddylai fod yn wahanol. Gall ganolbwyntio ar un maes bach o addysg y dysgwr neu fod yn fwy cyffredinol.

Siartiau cyfathrebu

Beth mae'r unigolyn yma yn ei gyfathrebu drwy eu hymddygiad, a sut maen nhw eisiau i chi ymateb?

Proffiliau a chytundebau gwneud penderfyniadau

Darlun o'r penderfyniadau a wnaiff dysgwr, sut y gwnânt hynny a'r gefnogaeth a'r wybodaeth maent ei hangen.

Cylch perthynas

Crynodeb gweledol o'r hyn sy'n bwysig ym mywyd unigolyn.

Log dysgu

Cofnod o ddysgu unigolyn sy'n eich helpu i weld beth ddylai aros yr un peth a beth ddylai newid.

4 plws 1

Offeryn meddwl i'ch helpu i ystyried yr hyn a ddigwyddodd drwy edrych ar yr hyn yr ydych wedi rhoi cynnig arno a'i ddysgu, yn falch ohono ac yn pryderu amdano – ac yna benderfynu i'w wneud nesaf.

Yn yr adran nesaf, mae ymarferydd yn disgrifio ei phrofiad ei hun o gyflwyno meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion. Ar ôl hyn, yn y 10 adran ddilynol, gallwch ganfod yr hyn y gall pob offeryn meddwl ei wneud i chi a'ch dysgwyr, a sut i ddefnyddio pob un.

Meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion ar waith yn Sir Gaerfyrddin

Mae Helen Etherington yn Uwch Seicolegydd Addysgol a Phlant yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin. Yma mae'n myfyrio ar ei phrofiad o ddefnyddio offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion, mewn ysgolion a cholegau, a hefyd yn ei harfer ei hun.

Cyflwyno proffiliau un dudalen mewn ysgol gynradd

Roedd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yn un o'r siroedd gwreiddiol a gymerodd ran yn rhaglen 'Datganiadau neu Rywbeth Gwell?' Llywodraeth Cymru, ac arweiniodd ar ddatblygu dull sy'n canolbwyntio ar unigolion o fewn yr ysgolion a gymerodd ran. Croesawodd Ysgol Gynradd Porth Tywyn yn Sir Gaerfyrddin y dull ac yn dilyn dau ddiwrnod o hyfforddiant dechreuol i'r ysgol gyfan, penderfynodd pennaeth yr ysgol ddatblygu **proffiliau un dudalen** ar gyfer yr holl ddysgwyr, nid dim ond y rhai y dynodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Pam proffiliau un dudalen?

Yn dilyn yr hyfforddiant ysgol gyfan, roedd holl aelodau'r staff yn gadarnhaol iawn am y potensial i ddefnyddio **proffiliau un dudalen** i:

- gefnogi dysgu plant
- adlewyrchu 'llais y disgyblion'
- cefnogi trosglwyddo ar draws y cyfnodau allweddol
- rhoi gwybodaeth allweddol i athrawon cyflenwi.

Mynychais sesiynau gyda'r nos yn yr ysgol ar ddatblygu **proffiliau un dudalen**. Daeth aelodau unigol o staff (yn athrawon a hefyd yn gynorthwywyr cymorth dysgu) ag enghreifftiau o **broffiliau un dudalen** yr oeddent wedi eu datblygu gyda'r dysgwyr. Dim ond ar gyfer dysgwyr oedd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) y paratowyd rhain i ddechrau. Fodd bynnag, dros gyfnod o un flwyddyn academiaidd, cafodd yr arfer ei ymestyn i gynnwys pob dysgwyr.

Cydnabod llwyddiant

1. Mae'r ysgol wedi datblygu **proffiliau un dudalen** ar gyfer pob dysgwr. Mae cynorthwyrwyr addysgu ac athrawon hefyd yn ymweld â dysgwyr dan oed ysgol a'u teuluoedd i ddatblygu **proffiliau un dudalen**, gan olygu fod gan y dysgwyr sy'n mynd i'r dosbarth meithrin yn yr ysgol **broffiliau un dudalen** eisoes.
2. Mae'r berthynas rhwng cartref ac ysgol wedi gwella'n gyffredinol oherwydd mwy o gyfathrebu. Caiff **proffiliau un dudalen** eu rhannu gyda rhieni yn ystod nosweithiau rhieni, a chânt eu hanfon gydag adroddiadau diwedd blwyddyn i gartrefi dysgwyr.
3. Mae aelodau staff yn yr ysgol uwchradd sy'n derbyn, a gymerodd ran hefyd yn rhaglen 'Datganiadau neu Rywbeth Gwell?' wedi rhoi sylwadau cadarnhaol ar sut y bu'r **proffiliau un dudalen** yn effeithiol wrth gefnogi trosglwyddo.
4. Defnyddir gwybodaeth a gafwyd o gofnodion ymgynghoriad addysgol a seicoleg plant hefyd i ddiweddarau'r **proffil un dudalen**, ynghyd â chynghor gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n cefnogi.
5. Mae aelodau staff wedi canolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr, a datblygwyd gweithgareddau addysgu i adlewyrchu hyn.
6. Mae dysgwyr yn cymryd mwy o ran mewn penderfyniadau a wneir am y cymorth ar dderbyniant yn yr ysgol.
7. Defnyddir y **proffiliau un dudalen** i hyrwyddo hunan-barch.

Problemau a sut y cawsant eu goresgyn

Roedd peth anghysondeb ar y dechrau am y **proffiliau un dudalen**; fodd bynnag, yn dilyn y sesiwn gyda'r nos pan ofynnwyd i aelodau staff ddod ag enghreifftiau gyda nhw i'w rhannu, bu gwelliant sylweddol yn ansawdd y **proffiliau un dudalen**.

Beth fedrid ei wneud yn wahanol

Byddwn yn rhannu'r hyfforddiant deuddydd yn ddarnau mwy hylaw, e.e. yn canolbwyntio'n benodol ar **broffiliau un dudalen** mewn un sesiwn er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio offerynnau sy'n canolbwyntio ar unigolion (e.e. **diwrnod da – diwrnod gwael**, ac ati) ar gyfer eu datblygu. Gellid hefyd gyflawni hyn drwy ddefnyddio e-ddysgu a hyfforddi pobl i ddefnyddio hyn yn yr ystafell ddosbarth.

Dull sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion ar gyfer seicoleg addysgol a phlant

Fe wnes i addasu fy ngwaith papur i adlewyrchu ffordd o weithio sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion. Mae fy nghofnod ymgynghori seicoleg addysgol a phlant bellach wedi'i drefnu dan y penawdau canolbwyntio ar unigolion, ac rwy'n ceisio cynnal fy holl sgysiau gyda dysgwyr a'u rhieni mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Yr offerynnau meddwl ac arferion a ddefnyddiwyd

Fe wnes i ddefnyddio'r offerynnau meddwl hyn.

1. Gwerthfawrogi

2. Pwysig i/ar gyfer

3. Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio

4. Beth allai fod yn well

Fe wnes i ganfod fy mod yn cofnodi mwyafrif yr wybodaeth rwyf ei hangen dan y penawdau hyn ac mae eu defnyddio yn fy ymgynghoriadau yn fy helpu i ganolbwyntio ar anghenion a dymuniadau'r dysgwyr. Roeddwn hefyd eisiau sicrhau fy mod yn rhoi cymaint o ran ag sy'n bosibl i'r dysgwyr yr ydw i'n gweithio â nhw wrth ddynodi'r gefnogaeth maen nhw'n teimlo eu bod angen.

Rwyf fel arfer yn defnyddio **diwrnod da – diwrnod gwael** i geisio canfod beth sy'n bwysig i rywun, a sut i'w cefnogi, er fy mod hefyd yn cael **cylch perthynas** yn neilltuol o ddefnyddiol wrth geisio dynodi unigolyn allweddol a all fedru sicrhau newid.

Cydnabod llwyddiant

1. Dywedodd ysgolion fod yn well ganddynt y dull newydd yma o gofnodi gwybodaeth. Teimlant ei bod yn cael ei chyflwyno mewn ffordd glir a'i bod yn cefnogi 'llais y disgybl'. Weithiau mae'r wybodaeth wedi annog ysgolion i drin materion mewn ffyrdd llai traddodiadol a defnyddio ffordd gydweithiol a gyda mwy o ffocws ar ddatrysiad i gefnogi dysgwyr yn seiliedig ar eu diddordebau a'r hyn sy'n eu cymell.
2. Mae ysgolion wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth yn fy nghofnodion ymgynghori i ddiweddarau eu **proffiliau un dudalen**.

3. Ymddengys bod rhieni hefyd yn hapusach gyda'r ffordd hon o adrodd, yn arbennig gyda'r ffocws yn symud tuag at y cadarnhaol, h.y. yr hyn y gall y plant ei wneud, a datblygu ymyriadau ymarferol sy'n rhoi ystyriaeth i safbwyntiau plant/pobl ifanc a safbwynt y rhieni.
4. Mae offerynnau megis **diwrnod da – diwrnod gwael a threfn arferol** wedi fy helpu i ddynodi darnau allweddol o wybodaeth na fyddai efallai wedi bod ar gael drwy dechnegau holi uniongyrchol, na thrwy ddulliau eraill o asesu. Mae'r wybodaeth gyfoethog a roddwyd wedi helpu i adeiladu darlun llawer cliriach o'r dysgwr holistig, a sut maent yn ganolog yn eu dysgu eu hunain.
5. Aeth rhai ysgolion ymlaen i ddatblygu **proffiliau un dudalen** ar gyfer eu dysgwyr gan ddefnyddio'r wybodaeth a amlinellwyd yn yr ymgynghoriadau.

Problemau a sut y cawsant eu goresgyn

Ymddengys bod yr holl ysgolion, rhieni a'r dysgwyr y gweithiais â nhw wedi croesawu'r dull canolbwyntio ar unigolion o gofnodi gwybodaeth.

Weithiau, roedd peth gwrthwynebiad i'r dull canolbwyntio ar anghenion yma, yn bennaf oherwydd systemau presennol ALLau yn canolbwyntio ar feini prawf, ond rwy'n teimlo'n gadarnhaol fod y newid mewn diwylliant yn dechrau ennill momentwm. Roedd arweinyddiaeth penaethiaid ysgol wrth ddatrys y materion hyn yn hollbwysig.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol

Rwy'n credu y byddwn yn cynnwys dysgwyr a'u rhieni wrth ddatblygu gwaith papur sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a Phlant Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn helpu i ddynodi'r hyn y byddai'r dysgwyr eu hunain a'u teuluoedd yn ei gael yn ddefnyddiol yn nhermau cofnodi asesiad, dynodi ymyriadau priodol a gwerthuso cynnydd.

Y profiad o ddefnyddio meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion yn Ysgol Pennaeth

Alison Williams yw pennaeth Ysgol Pennaeth – yr ysgol y mae Helen yn ei disgrifio uchod. Dyma ei phrofiad hi o ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolion.

'Fel rhiant plentyn a gafodd ddatganiad AAA pan oedd yn yr ysgol, mynychais tua saith o gyfarfodydd adolygu blynyddol. Rwy'n sicr i'r swyddogion a gymerodd ran yn y cyfarfodydd hynny wneud eu gorau i wneud i mi deimlo'n gysurus. Fodd bynnag, roedd y nifer fawr o swyddogion o amgylch y bwrdd yn aml yn codi braw arnaf, gyda phawb ohonynt yn ymddangos eu bod yn dweud yr hyn na allai fy mhlentyn ei wneud neu yr oedd yn ei gael yn anodd.

Fel rhywun yn gweithio ym myd addysg, roeddwn yn deall yr holl jargon a'r termau oedd yn cael eu defnyddio a goblygiadau'r rheiny ar ddysgu a datblygiad fy mhlentyn. Fel rhiant, rwy'n aml yn claddu fy ymateb emosiynol i'r sylwadau mwy gwrthrychol o fy mhlentyn sydd gan y swyddogion hynny.

Mae gweithio gyda rhieni drwy ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion bob amser yn dechrau mewn ffordd gadarnhaol gyda dathliad o'r hyn sy'n gwneud y plentyn yn unigryw ac yn cael ei werthfawrogi. Mae gosod targedau yn agos at anghenion gwirioneddol y dysgwr ac felly'n rhwyddach eu cyflawni, gyda phawb sy'n bresennol yn hollol atebol ac yn ymrwymedig i lwyddiant. Mae rhieni, dysgwyr a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal a chaiff y dull ei weithredu gyda'r dysgwr yn y canol.

Mae gennym nifer o deuluoedd yn ein hysgol sydd wedi bod yn ymwneud â'r dull yma ers peth amser. Mae ganddyn nhw nawr berthynas gref gyda gweithwyr proffesiynol sy'n hyrwyddo dialog agored a datrys problemau ar gyfer llwyddiant y dysgwr. Mae rhieni wedi rhoi sylwadau cadarnhaol ar y dull gweithredu, yn arbennig y ffordd y mae'n adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas gref ar draws proffesiynau a chymunedau.

Mewn llawer o achosion, mae wedi grymuso rhieni a sicrhau eu bod yn deall yn llawn y gefnogaeth sydd ar gael a chynnydd eu plentyn.

Yn yr ysgol rydym yn awr yn ceisio gweithio gyda theuluoedd sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion gyda theuluoedd sy'n profi problemau sy'n effeithio ar gyrhaeddiad y dysgwr neu ymgysylltu mewn ysgolion. Er enghraifft, defnyddiwn ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion pan fyddwn yn dynodi ac yn atgyfeirio teuluoedd ar gyfer cefnogaeth pan fo anghenion cymdeithasol neu iechyd yn effeithio ar ymddygiad y dysgwr.'

Proffiliau un dudalen

Pwysig i/pwysig ar gyfer

Mae cael cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n bwysig i ac ar gyfer dysgwr yn sylfaen i ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn rhy aml o lawer mae dogfennau, cynlluniau ac adolygiadau yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwr – y pethau y mae athrawon a gweithwyr proffesiynol yn credu fod y dysgwr eu hangen er mwyn dysgu. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn dod â'r ffocws yn ôl ar y dysgwr.

Mae canfod beth sy'n bwysig i ac ar gyfer dysgwr yn ganolog wrth greu eu **proffil un dudalen** ac yn ddiweddarach wrth ddatblygu deilliannau a champau gweithredu mewn adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Pwysig i

Mae'r hyn sy'n bwysig i ddysgwr yn cynnwys y pethau sy'n wirioneddol bwysig iddynt, sy'n rhoi pleser ac ystyr ac yn rhoi ansawdd bywyd. Os nad yw'r pethau hyn yn bresennol gall y dysgwr deimlo'n bryderus neu'n anhapus. Er enghraifft, gallai dysgwr ddweud fod treulio amser gyda'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol neu eistedd yn ymyl y drws mewn dosbarth yn wirioneddol bwysig iddynt. Gallent deimlo'n annifyr neu gymryd atynt pe na fyddai'r pethau hyn yn digwydd.

Pwysig ar gyfer

Mae'r hyn sy'n bwysig ar gyfer dysgwr yn cynnwys y pethau hynny y mae'n rhaid iddynt ddigwydd er mwyn i ddysgwyr symud ymlaen yn eu haddysg, datblygu ac aros yn iach a diogel. Mae gweithwyr proffesiynol yn aml yn disgrifio hyn fel 'angen a aseswyd'. Er enghraifft, gallai fod yn bwysig ar gyfer dysgwr i gael gwahaniaethiad neilltuol mewn gwers, neu i gael pethau wedi eu dal bellter penodol o'u blaen er mwyn iddynt fedru canolbwyntio arnynt. Mae deall beth sy'n bwysig i'r dysgwr yn golygu y gallwch ddisgrifio'r ffordd orau i'w cefnogi – mae'n wybodaeth ar y ffordd orau i'w cefnogi a gynhwysir yn eu **proffil un dudalen**.

Cydbwyso pwysig i a phwysig ar gyfer

Mae'n rhaid i ni gyd gydbwyso'r hyn sy'n bwysig i ni a'r hyn sy'n bwysig ar ein cyfer – mae'n gyfaddawd cyfarwydd a wnawn bob dydd. Er enghraifft, gall fod angen i ni ganfod cydbwysedd rhwng bod eisiau bwyta siocled ac angen cynnal pwysau iach, neu rhwng bod eisiau noswaith hamddenol ac eisiau dod yn fwy heini yn y gampfa.


Mae'r **proffil un dudalen** yn eich helpu i ddisgrifio'r cydbwysedd ar gyfer dysgwr drwy nodi'n glir beth sy'n bwysig iddynt ac ar eu cyfer mewn un lle.

Defnyddio'r offeryn meddwl pwysig i/pwysig ar gyfer

Wrth weithio gyda dysgwr, mae angen i chi ganfod:

- beth sy'n bwysig i'r dysgwr?
- beth sy'n bwysig ar gyfer y dysgwr?

Mae'r cwestiynau hyn yn ymddangos yn syml. Yn ogystal â'r offeryn meddwl **pwysig i/pwysig ar gyfer**, rydym yn rhoi enghreifftiau wedi eu llenwi ar dudalennau 13 a 14, gallwch ddefnyddio ystod o offerynnau meddwl eraill sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gasglu'r wybodaeth yma. Gall sgysiau am yr hyn sy'n gwneud diwrnod da a diwrnod gwael, trefn arferol, perthnasoedd ac eiddo oll gyfrannu at ddynodi'r hyn sy'n bwysig i ac ar gyfer dysgwr. Mae mwy o wybodaeth am sut i wneud hyn yn yr adrannau canlynol.



Enghreifftiau o'r offeryn pwysig i/pwysig ar gyfer

Laura

Mae Laura yn 17 ac yn mynychu ei choleg lleol. Dyma rai o'r pethau y mae'n eu disgrifio fel bod yn bwysig iddi ac ar ei chyfer.

Pwysig i mi	Pwysig ar fy nghyfer
Bod mewn pryd neu'n gynnar ar gyfer coleg.	Cael fy atgoffa i orffwys a chymryd egwyl pan fyddaf yn astudio.
Bod yn drefnus, pacio fy mag y noswaith cynt.	Bod fy nhiwtoriaid yn gwybod fod gennyf awtistiaeth a sut i fy nghefnogi.
Cael popeth rwyf ei angen am y diwrnod.	Bod tiwtoriaid yn cynnig help i mi pan fyddaf yn edrych lawr mewn gwersi.
Cael fy mrecwast – rwy'n ffysi iawn a dim ond bar grawnfwyd rwyf yn ei hoffi.	Cael gwybodaeth wedi ei rhannu yn gamau.
Cael cynllun wrth gefn bob amser.	Gallaf ei chael yn anodd mewn gwaith grŵp ond rwy'n gwybod ei fod yn dda i fi – mae'n help os wyf yn dod i adnabod pobl yn gyntaf.
Gwneud yn siŵr fy mod wedi gwneud fy ngwaith cartref a'i roi i mewn ar amser.	Cael rhywle tawel i ymlacio ynddo os wyf yn teimlo dan straen.
	Peidio cael gormod o waith wedi'i roi i mi ar yr un pryd.

Pan fyddwch yn ychwanegu fel hyn at **broffil un dudalen**, mae angen i chi ei ddatblygu'n llawnach. Gweler yr enghraifft ganlynol.

Bod mewn pryd neu'n gynnar ar gyfer coleg.

Gellid ysgrifennu hyn yn yr adran 'bwysig i' fel:

'Rwy'n hoffi cyrraedd yn y coleg mewn pryd, gan nad wyf yn hoffi bod yn hwyr. Mae hefyd yn rhoi cyfle i mi weld fy ffrindiau cyn i'r gwersi ddechrau. Rwy'n dal y bws 8.15a.m. sy'n cyrraedd y coleg erbyn 8.40.'

Bod tiwtoriaid yn cynnig help i mi pan fyddaf yn edrych lawr mewn gwersi

Gellid ysgrifennu hyn yn yr adran 'y ffordd orau i gefnogi' fel:

'Pan wyf yn bryderus neu ddim yn deall rhywbeth, rwy'n edrych i lawr a ddim yn edrych ar bobl yn eu llygaid. Os gwelwch fi yn gwneud hyn, gofynnwch os ydw i angen help, a byddaf yn esbonio beth yw fy mhroblem.'

Caitlin

Mae gan Caitlin anghenion mwy dwys a chymhleth. Mae gweithwyr proffesiynol, teulu a ffrindiau sy'n ei hadnabod yn dda wedi disgrifio'r hyn a gredant sy'n bwysig iddi ac ar ei chyfer. Gallant wneud 'dyfaliadau gorau' am yr hyn sy'n bwysig iddi yn seiliedig ar sylwi ar ei hymateb i bethau. Maent yn gwybod ei bod yn mwynhau nofio oherwydd ei bod yn cyffroi pan ddywedir wrthi ei bod yn mynd, ac mae'n gwenu ac yn hapus yn y dŵr. Maent yn gwybod beth sy'n bwysig i Caitlin yn seiliedig ar eu barn broffesiynol neu wybodaeth o Caitlin. Maent yn gwybod beth fydd yn ei helpu a'i chefnogi i sicrhau cynnydd, cadw'n iach a diogel. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn sy'n bwysig iddi ac ar ei chyfer.

Pwysig i Caitlin	Pwysig ar gyfer Caitlin
Treulio amser adre gyda'i mam, ei thad a'i brawd Tomos.	Defnyddio ei chadair olwyn pan fydd tu allan.
Mynd o amgylch yn lleol, yn arbennig i gaffes, bwyta, siopau a'r sinema.	Cael ei chefnogi tra'n cerdded i'w chadw rhag syrthio.
Mynd i nofio neu ddefnyddio'r pwll hydrotherapi.	Cael cefnogaeth gyda chyfathrebu.
Gwrando ar gerddoriaeth dawel, ymlaciol.	Peidio bwyta'n gyflym neu gael darnau mawr o fwyd ar ei phlât.
	Cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'w threfn arferol.

Ar **broffil un dudalen** Caitlin, gallech ddatblygu'r datganiadau hyn fel a ganlyn.

Mynd i nofio neu ddefnyddio pwll hydrotherapi.

Gellid ysgrifennu hyn fel:

'Mynd i nofio neu ddefnyddio pwll hydrotherapi o leiaf unwaith yr wythnos. Mae'n well gennyf fynd pan mae'n dawl a gyda grŵp bach gan fod llawer o sŵn yn fy ngwneud yn bryderus.'

Cael fy nghefnogi pan fyddaf yn cerdded.

Gellid ysgrifennu hyn fel:

'Nid yw Caitlin yn sad ar ei thraed. Cefnogwch hi wrth gerdded drwy gydio yn ei llaw dde a rhoi llaw ar ei hysgwydd chwith.'

Pam defnyddio proffiliau un dudalen?

Y **proffil un dudalen** yw sylfaen cymorth addysg wedi'i bersonoli. Mae'n casglu gwybodaeth allweddol am ddysgwyr fel y gellir ei rhannu a'i deall yn gyflym.

Mae **proffil un dudalen** yn disgrifio cymeriad, doniau a thalentau dysgwyr; yr hyn sy'n bwysig iddynt; a'r ffordd orau i roi cymorth iddynt.

Mae animeiddiad yn disgrifio sut mae **proffiliau un dudalen** yn edrych a sut y gellir eu defnyddio mewn llawer o gyd-destunau yn: www.youtube.com/watch?v=fnaKnVWFh44

Mae'r **proffil un tudalen** yn offeryn grymus, ac mae unigolion a sefydliadau ar draws pob sector yn ei ddefnyddio i drawsnewid y ffordd y maent yn gweithio.

Sut i ddefnyddio proffiliau un dudalen


Elfennau proffil un dudalen

Mae tair elfen mewn **proffil un dudalen**.

- Gwerthfawrogi: yr hyn mae pobl yn ei hoffi ac yn ei edmygu am y dysgwyr; eu cymeriad, doniau a thalentau.
- Yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwyr: beth sy'n bwysig i'r dysgwyr, o'u safbwynt nhw?
- Sut i gefnogi'r dysgwyr: arbenigedd am y sut i gael y gorau allan o'r dysgwyr, o safbwynt y dysgwyr ei hunan a'u teulu, athrawon a staff eraill.

Eich nod mewn creu **proffil un dudalen** yw darganfod pa gymorth mae dysgwyr ei angen, a chydbwyso hyn gyda'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwyr.

Proffil un dudalen



Beth mae pobl yn ei werthfawrogi amdanaf i
(hofi ac edmygu)

Beth sy'n bwysig i fi

Y ffordd orau i fy nghefnogi

Defnyddio offerynnau meddwl i gasglu gwybodaeth

Gallwch gasglu'r wybodaeth ar gyfer **proffil un dudalen** mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallwch ddefnyddio'r offerynnau meddwl eraill yn y llyfr yma i ddarganfod gwybodaeth ar gyfer y proffil.

Defnyddiwch yr offeryn meddwl **gwerthfawrogi** i ganfod beth mae eraill yn ei hoffi ac yn ei edmygu am y dysgwr.

Defnyddiwch offerynnau meddwl **diwrnod da – diwrnod gwael, dyheadau, beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio, a chylch perthynas** i ganfod beth a phwy sydd bwysicaf i'r dysgwr.

Defnyddiwch yr offerynnau meddwl **diwrnod da – diwrnod gwael a beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** i ganfod y ffordd orau i gefnogi'r dysgwr.

Gweler 'Crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion' ar dudalen 77.

Dyfal, gofyn ac ysgrifennu

Gall gymryd amser i ganfod beth sy'n bwysig i bob dysgwr. Byddwch yn darganfod gwybodaeth drwy sgysiau ac edrych ar ymddygiad – weithiau tra'n defnyddio offeryn meddwl, weithiau yn ystod cysylltiad bob dydd.

Dyfal

Dechreuwch drwy nodi'r hyn y credwch a wyddoch eisoes am y dysgwr – am beth maen nhw'n ymddangos yn angerddol? Beth sy'n gwneud iddynt chwerthin a gwenu? Beth sy'n eu gwneud yn drist neu'n ddig? Yn beth nad ydyn nhw'n dangos unrhyw ddiddordeb?

Gofyn

Nawr mae angen i chi ganfod os oedd eich dyfal yn gywir. Dyma chwe chwestiwn i ddechrau sgysiau gyda'r dysgwr. Gallwch eu haddasu i weddu i gyfathrebu a dealltwriaeth y dysgwr, ac os nad yw'r dysgwr yn defnyddio geiriau i siarad gallwch ofyn i berthnasau, ffrindiau ac aelodau staff sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'n well peidio gofyn pob cwestiwn ar unwaith gan fod hyn yn llawer o wybodaeth i un person feddwl amdani.

1. Pwy yw'r bobl bwysicaf i chi? Edrychwch gyda'ch gilydd ar eu **cylch perthynas** os oes ganddynt un.
2. Beth fyddai eich diwrnod gorau a'ch diwrnod gwaethaf?

3. Beth ydych chi'n ei wneud fel arfer yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau?
4. Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n well pan ydych yn anhapus, dig neu wedi cymryd atoch?
5. Beth na fydddech chi byth yn gadael cartref hebddo, e.e. yn eich bag neu boced?
6. Beth fyddai eich teulu a'ch ffrindiau'n dweud eu bod yn ei hoffi, garu neu edmygu amdanoch?

Ysgrifennu

Unwaith y byddwch yn hyderus eich bod wedi deall teimladau'r dysgwr, dylech eu cofnodi mor gywir ac mor benodol ag sy'n bosib. Defnyddiwch eiriau'r dysgwr ei hun lle gallwch.

Os na all y dysgwr ddweud wrthy'ch yn uniongyrchol am eu teimladau, gall fod angen i chi ysgrifennu eich dyfaliadau gorau. Gallwch brofi eich dyfaliadau drwy ddefnyddio offerynnau meddwl **log dysgu a 4 plws 1**.

Cyngor da ar ysgrifennu proffil un dudalen defnyddiol

Nid oes un ffordd i wneud **proffil un dudalen**, ond mae'n bwysig fod popeth a ysgrifennir yn gywir, clir a rhwydd ei ddarllen.

- Cadw'r holl ddatganiadau yn fyr ac yn benodol.
- Canolbwyntio ar y cadarnhaol.
- Rhoi digon o fanylion fel y gall unrhyw un ddefnyddio'r wybodaeth yn syth.

Dyma rai cyngorion ac enghreifftiau ar gyfer pob elfen a ddangosir ar **broffil un dudalen** wag.

Llun o'r person
ifanc

Hoffi ac edmygu

Dylai'r elfen yma fod yn rhestr gadarnhaol a balch o nodweddion, cryfderau a thalentau'r dysgwr.

Dylid osgoi geiriau tebyg i 'fel arfer' neu 'weithiau' neu unrhyw beth sy'n swnio yn ganmol gwamal.

Beth sy'n bwysig i unigolyn ...

Dylid cynnwys digon o fanylion fel y gall rhywun nad yw'n adnabod yr unigolyn ddeall beth sy'n bwysig iddynt. Dylai ddal fod yn rhwydd gwybod pwy yw pawb hyd yn oed pe byddech yn tynnu'r enwau oddi ar y **proffiliau un dudalen** mewn dosbarth.

Yn lle hyn

...ysgrifennwch hyn

Hoffi amser chwarae Chwarae gemau (fel arfer yn cynnwys rhedeg a sgipio) gyda Hannah a'i ffrindiau agos eraill amser chwarae.

Bod yn drefnus Gwneud yn siŵr fod y câs pensiliau a'r bag ysgol wedi'u pacio'r noson cynt a gwneud yn siŵr bod ei hambwrdd yn y dosbarth yn daclus.

Bod â ffrindiau Cerdded i'r ysgol gyda'i ffrind Ella bob dydd ac eistedd gyda Ella, Lucy a Nina amser cinio.

Sut i roi cymorth da i unigolyn yn yr ysgol

Cynnwys digon o fanylion fel y gallai athro/athrawes llanw roi cymorth ar unwaith i'r unigolyn a gwybod beth i'w wneud a hefyd beth i'w osgoi.

Yn lle hyn

...ysgrifennwch hyn

Bod yn amyneddgar gyda Liam Gall Liam fod angen i chi ailadrodd tasg gwpl o weithiau cyn y bydd yn teimlo'n hyderus i'w chynnig. Gallwch ddweud os yw'n ansicr oherwydd y bydd yn edrych drwy'r ffenestr a chnoi ei bensil. Mae gofyn os oes ganddo unrhyw gwestiynau am y gweithgaredd yn gweithio'n well fel arfer na gofyn os yw'n deall beth i'w wneud.

Mae Chloe angen help i wneud ffrindiau Mae Chloe'n cymryd amser i ddod i adnabod pobl a gwneud ffrindiau. Mae'n help os gallwch ganfod ffyrdd iddi dreulio ei hamser ac eistedd gyda gwahanol ferched yn wythnosau cyntaf y tymor. Mae'n gwerthfawrogi i chi ofyn iddi sut mae'n dod ymlaen gyda'i ffrindiau yn ystod amser un i un.

Enghreifftiau o broffiliau un tudalen ar waith

Georgie

Mae Georgie yn fenyw ifanc a ddefnyddiodd ei **phroffil un dudalen** drwy'r ysgol gynradd ac uwchradd. Mae'n dweud sut mae hyn wedi helpu yn y fideo yma: www.youtube.com/watch?v=t0DNI8z6xPw

Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Wrecsam

I ledaenu athroniaeth meddwl sy'n canolbwyntio ar y person ledled ysgolion yn Wrecsam a Sir y Fflint, gwahoddodd Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Wrecsam benaethiaid ysgol ac uwch reolwyr i hyfforddi gyda'i gilydd.

Ers hynny maent wedi ailgynnull mewn dyddiau ailgysylltu, rhannu arfer a phwyntiau dysgu a datblygu eu gwybodaeth ymhellach.

Mae'r holl ysgolion a fynychodd y dyddiau ailgysylltu yn defnyddio **proffiliau un dudalen** a chaiff pob ysgol yn Wrecsam eu hyfforddi erbyn mis Hydref 2015.

Proffil un dudalen Jamie

Mae stori Jamie yn dangos sut gall **proffiliau un dudalen** helpu dysgwyr sy'n profi awtistiaeth i gyfathrebu beth sy'n bwysig iddyn nhw ac ar eu cyfer, tra'n rhannu eu sgiliau a doniau personol mewn ffordd sy'n gweithio'n dda iddynt. Mae hefyd yn dangos sut y gellir defnyddio **proffiliau un dudalen** mewn adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion fel amgen i ddim ond gosod targedau drwy ddatganiadau AAA, ran roi'r unigolyn yng nghanol gwneud pob penderfyniad. Adroddir y stori gan gydlynnydd AAA Connor.

'Mae Jamie yn un ar ddeg oed ac mae ganddo ddiagnosis deuol o anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae'n gariadus iawn ac wrth ei fodd gyda chanu a drama. Mae ei bersonoliaeth yn ei anwylo i oedolion ac mae ganddo rhai ffrindiau da. Mae'n ddiflewyn ar dafod ac mae ganddo synnwyr digrifwch os nad ef yw testun y jôc.

Cafodd **proffil un dudalen** Jamie ei chreu yn barod ar gyfer iddo drosglwyddo i ysgol gyfun fel y gallai'r bobl newydd yn ei fywyd ddod i adnabod ychydig arno cyn cwrdd ag ef a gallai Jamie ddweud wrtho beth a gredai oedd yn bwysig iddynt ei wybod amdano.

Fe wnaeth Jamie gwblhau 'Beth sy'n bwysig i mi?' o'r offeryn **pwysig i/ pwysig ar gyfer** ar ei ben ei hun a rhannwyd **diwrnod da – diwrnod**


gwael gyda staff i greu 'Y ffordd orau i fy nghefnogi'. Cyfrannodd ei gyfoedion, staff a theulu at 'Yr hyn yr ydym yn ei hoffi a'i edmygu'. Creodd ei broffil yn yr ysgol gan ddefnyddio ei dabled a chynnwys fideo. Cafodd y proffil ei gwblhau dros bum sesiwn addysgu mewn wythnos.

Caiff proffil Jamie ei ddangos yn yr ysgol a'i rannu gyda staff yn ei ysgol newydd, ei deulu, yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag ef ar hyn o bryd. Fe'i hanfonwyd gyda'i wahoddiad i'w adolygiad cyntaf canolbwyntio ar unigolyn. Fe'i defnyddiwyd i baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn drwy drafodaeth gyda Jamie a'i fam, athro a therapydd iaith a lleferydd, yn dynodi beth sy'n gweithio/ddim yn gweithio a chanlyniadau posibl i gael eu hystyried yn y cyfarfod adolygu. Mae'n ddogfen waith y gall ei newid ac ychwanegu ati.

Roedd wrth ei fodd yn ei gwneud ac mae'n dangos cymaint amdano, hyd yn oed ei hoff lliwiau a defnydd fideo. Mae wedi helpu staff sy'n gweithio gydag ef i gael mwy o ddirnadaeth ar ei sylwadau y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Mae'n sicr wedi'n helpu ni i sylweddoli pwysigrwydd peidio tybio y gwyddom bopeth. Cafodd hyd yn oed ei fam ei synnu ar un peth a gynhwysodd yn 'Y ffyrdd gorau i fy nghefnogi'. Mae wedi ein helpu i sylweddoli mor graff yw Jamie am yr hyn y mae'n ei hoffi, ei gryfderau ac anghenion. Mae wedi helpu perthnasau a gweithwyr proffesiynol i sylweddoli sut i'w gefnogi. Gallant ddefnyddio'r proffil fel y ddolen i'w annog i ddod yn gynyddol annibynnol drwy gynnig rhywbeth y mae ei eisiau neu sy'n bwysig iddo, a drwy roi strategaethau ar waith fydd yn galluogi hyn i fod yn llwyddiannus.

Mae Jamie wrth ei fodd yn rhannu ei broffil gyda phobl eraill; mae wedi ei helpu i adeiladu perthnasoedd gydag oedolion a chyfoedion llai cyfarwydd. Mae'r proffil, fel rhan o'r broses adolygu sy'n canolbwyntio ar unigolion, yn ddi-os wedi gwneud Jamie yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau ac mae'r canlyniadau yn berthnasol iddo ar hyn o bryd, yn hytrach na chael targedau a osodwyd yn gysylltiedig â'i ddatganiad AAA a'r hyn yr ydym ni fel rhieni a swyddogion yn ystyried yn bwysig iddo.

Roeddem yn credu ein bod yn adnabod Jamie yn dda cyn paratoi ei **broffil un dudalen**, ond fe wnaeth ddal i'n synnu ni a'i fam. Mae'n rhoi cipolwg rhyfeddol nad oeddent wedi llwyddo ei gael o'r blaen. Mae'r broses adolygu sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi newid y ffordd y byddwn yn paratoi ar gyfer ac yn cynnal cyfarfodydd adolygu. Mae Jamie yn awr yn ganolog i'r broses, gan gymryd rhan lawn yn y cyfarfod a chefnogi'r deilliannau oherwydd eu bod yn bwysig iddo.'



Fy enw i yw Jamie

Beth mae pobl yn ei hoffi ac yn ei edmygu amdanaf i:


Canwr da, ffrind da, doniol, parod i gynorthwyo, bachgen da iawn. Gofalus iawn o bobl eraill a phoeni os ydynt yn sâl neu'n drist. Bod yn frawd mawr da i Amelia a gwneud yn siŵr ei bod yn ddiogel. Bod yn gariadus, synnwyr digrifwch da, digywilydd a bod fi'n hun, rhyfeddol, llawysgrifen hardd, greadigol iawn; llais bendigedig, dychmyg hyfryd, parod i gynorthwyo.

Beth sy'n bwysig i mi ...

Chwarae gemau fideo y rhan fwyaf o ddyddiau. Bwyta bwyd iach fel ffrwythau. Afalau ydi fy hoff ffrwyth. Chwarae hefo blociau adeiladu, yn gwneud rhywbeth newydd bob tro. Rydw i'n hoffi chwarae gyda blociau adeiladu ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.

Rydw i'n hoffi chwarae 'bw' gyda fy chwaer fach. Weithiau mae'n fy nghusanu ac yn rhoi cwtsh. Rwy'n hoffi rhoi cwtsh i mam hefyd. Rasio yn erbyn dad pan fyddwn yn chwarae gemau fideo ar gonsol gemau dad yn y gwyliau.

Mae'r bobl yn yr ysgol yn bwysig i fi oherwydd eu bod nhw'n fy helpu gyda fy ngwaith.



Y ffordd gorau i fy nghefnogi:

Fy nghael i godi cyn 7.50am fel bod gen i amser i baratoi heb ruthro.

Fy atgoffa i symud ynghynt yn y bore pan ydw i'n mynd i'r ysgol fel bod gen i amser i wneud fy ngwaith a bod mewn pryd ar gyfer brecwast.

Weithiau rydw i'n cael fy mathemateg yn anghywir pan fyddaf yn rhuthro. Atgoffwch fi i bwylo a chymryd fy amser fel y gallaf feddwl beth ydw i'n ei wneud.

Os ydw i'n gofyn, gadewch i mi ymuno yn y gêm os gwelwch yn dda.

Os ydw i'n cael problem ar yr iard, rydw i'n hoffi trio datrys pethau ar ben fy hun. Weithiau rydw i angen oedolyn i fy helpu.

Os ydw i'n cael nodyn yn anghywir pan fyddaf yn canu, rydw i'n gwylltio gyda fi fy hun. Dywedwch wrthyf ei fod yn iawn.

Os oes rhywun yn fy mrifo mae'n gwtio fy motwm coch mawr sy'n golygu mod i'n gwylltio. Dylai athro ddweud wrtha i am bwylo a dweud y bydda i mewn trafferth os ydw i yn eu taro'n ôl ac mae hyn yn fy helpu i dawelu.

Weithiau mae'n wirioneddol swnllyd ar y bws mini yn mynd adre o'r ysgol. Byddai'n fy helpu pe byddai pawb yn tawelu ychydig a bod y radio ymlaen.

Os ydw i'n cael y bai am rywbeth nad ydw i wedi'i wneud, rhowch gyfle i mi ddweud beth sydd wedi digwydd. Os nad ydych yn fy nghredu gallwch edrych ar y camera i weld os ydw i'n dweud y gwir.

Proffil un dudalen Elis

Mae Elis yn fachgen 14 oed, un o efeilliaid. Mae ar y sbectrwm awtistig ac nid oes ganddo unrhyw iaith lafar, ond mae'n mynegi ei anghenion drwy wneud synnau ac ymestyn am eitemau. Mae gan Elis anawsterau dysgu difrifol ac mae'n mynychu ysgol anghenion arbennig.

Pam y cafodd Elis broffil un dudalen?

Fel ysgol ein hagwedd oedd y dylai pob dysgwr gael **proffil un dudalen** ac adolygiad yn canolbwyntio ar unigolion. Datblygwyd proffil Elis fel rhan o'r gwaith hwnnw. Roeddem eisiau cymryd dull canolbwyntio ar unigolion ar gyfer addysg, gan ein bod yn ei chael yn anodd gwybod sut i wahaniaethu rhwng pob dysgwr a gwneud yn siŵr fod gan ymwelwyr a gweithwyr proffesiynol wybodaeth gadarnhaol a defnyddiol am bob dysgwr fel y daethant i'r ysgol.

Cafodd **proffil un dudalen** Elis ei ddatblygu gan staff ystafell ddosbarth, yn ogystal ag eraill sy'n ei adnabod yn dda. Ychwanegwyd ato a'i newid dros y blynyddoedd wrth i Elis dyfu a datblygu. Defnyddiwn y broses adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion yn yr adolygiad blynyddol ac mae hyn wedi rhoi cyfle i ni adolygu a diweddarau proffil Elis yn ffurfiol gyda'i rieni a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ei gefnogi.

Sut y defnyddiwyd proffil un dudalen Elis?

Roedd **proffil un dudalen** Elis ar gael mewn ffeil yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn galluogi pobl i adnabod Elis a gwybod ar unwaith sut orau i'w gefnogi yn ogystal â rhoi disgrifiad a gwybodaeth gadarnhaol iddynt fyddai'n eu helpu i ymgysylltu gyda Elis. Wrth iddo fynd i drosglwyddo, fe'i defnyddir yn sylfaen i ddatblygu ei gynllun trosglwyddo.

Pa wahaniaeth a wnaeth i Elis?

Mae datblygu **proffiliau un dudalen** drwy'r ysgol wedi'i gwneud yn llawer haws deall anghenion dysgwyr. Ar gyfer Elis, mae wedi mynd â'r dyfalu allan o ddod i'w adnabod a'i ddeall, yn arbennig ar gyfer staff newydd yn dod i'r ysgol a gweithwyr proffesiynol sy'n dechrau gweithio gydag ef drwy drosglwyddo, megis ei gynghorydd gyrfaoedd.

Mae eraill yn gwybod sut i gysylltu a rhyngweithio gyda Elis. Mae hyn wedi'i wneud yn fwy cysurus gyda staff ac ymwelwyr i'r ysgol ac wedi gostwng ei bryderon pan ddaw pobl newydd i'r ystafell ddosbarth neu'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at iddo wneud cysylltiadau mwy cadarnhaol gyda mwy o bobl a bydd yn awr yn eistedd wrth ochr dysgwyr eraill yn y dosbarth fel y dymuna.

Gan fod staff wedi deall pwysigrwydd cysondeb wrth gefnogi Elis, gall yn awr gael mwy o gyfleoedd cymdeithasol yn y gymuned fel rhan o'i ddiwrnod ysgol. Dangoswyd hyn hefyd yn y gwaith y gall ei weithwyr cefnogaeth wneud gydag ef.

Mae hyn wedi ein galluogi i rannu gwybodaeth mewn ffordd gadarnhaol ac wedi cael effaith fawr ar yr hyn a wnaiff Elis yn yr ysgol a'i fywyd bob dydd.

Nid yw staff mwyach yn gorfod ymbalfalu mewn ffeiliau i ganfod gwybodaeth, nad yw'n glir a chryno na mor rhwydd cael gafael arni. Mae **proffiliau un dudalen** wedi'i gwneud yn rhwydd i bawb gyfathrebu'n uniongyrchol gyda phob dysgwr.



E B R I L L 2 0 1 3

Elis Williams

Y ffordd orau i gefnogi Elis

Gwybod os gofynnwch i Elis wneud rhywbeth y bydd yn cymryd amser i brosesu'r hyn rydych wedi gofyn iddo'i wneud ac i orffen y dasg, felly byddwch yn amyneddgar a bob amser wneud yn siŵr eich bod yn ei eirio mewn ffordd galonogol a chadarnhaol.

Gwybod fod yn rhaid i Elis wisgo ei helmed, yn arbennig pan nad yw'n hapus, gan ei fod ganddo dueddiad i frifo ei hunan. Mae Elis yn hoffi ei gwisgo a bydd yn ei gwisgo ei hun.

Gwybod y gall Elis fod yn anhapus neu dan straen weithiau, ac efallai na wyddom pam. Cefnogwch ef drwy roi tegan stres iddo i'w ddal yn ei law. Weithiau bydd eisiau symud i ffordd o lle mae, gwnewch hi'n bosibl iddo wneud hynny.

Cael diwrnod wedi'i strwythuro ond bod yn hyblyg o fewn y strwythur yn dibynnu ar sut mae Elis yn teimlo neu'n ymateb i weithgareddau. Os na fydd Elis yn cymryd rhan mewn gweithgaredd, cynigiwch rywbeth arall iddo i'w wneud.

Gadael i Elis wybod beth sy'n digwydd nawr a nesaf a'i gefnogi drwy ddefnyddio symbolau a lluniau y mae'n eu hadnabod; nhw yw eu basbort cyfathrebu.

Gwybod os yw Elis eisiau rhywbeth, bydd yn gadael i chi wybod drwy fynd i'w nôl neu drwy wneud arwyddion Makaton sylfaenol iawn. Mae'r rhain yn cael eu dangos yn ei broffil cyfathrebu.

Gwybod fod Elis yn cael lleoedd llawn yn anodd. Os ydych yn cynllunio trip gydag Elis, holwch bob amser pan fyddwch yn gwneud y trefniadau pa mor lawn mae'n debyg o fod. Os ewch i rywle gyda'ch gilydd a'i bod yn annisgwyl o brysur, cefnogwch ef drwy fynd ag ef yn ôl i'r car a rhoi sicrwydd llafar iddo.

Mae Elis yn mwynhau profiadau cyffyrddol, felly pan fyddwch yn gweithio gydag ef yn yr ysgol, gwnewch yn siŵr eich bod yn eu cynnwys yn ei ddiwrnod.

Mae Elis yn ymateb i seiniau llythrennau sylfaenol i ddatblygu ei ryngweithio gyda phobl eraill. Mae'n well gwneud hyn gyda phobl y mae Elis yn eu hadnabod.

Gwybod bod Elis angen cefnogaeth lwyr gyda phob agwedd o wybodaeth gofal personol; gweler ffolder gofal personol Elis yn yr ystafell ddosbarth.

Gwybod fod Elis yn ei chael yn anodd os yw'r car mae'n teithio ynddo yn gorfod stopio wrth oleuadau neu ar gyfer gwaith ffordd, bydd yn dod yn bryderus ac yn aflonydd. Helpwch ef drwy osgoi ffyrdd lle gwyddoch ei bod yn debygol o fod oedi a gwneud yn siŵr fod gennych bwl traen gyda chi bob amser.

Deall fod Elis angen cael cefnogaeth 2:1 yn y gymuned, un person bob ochr iddo fraich yn fraich lle'n bosibl. Os oes angen defnyddio croesfan cerddwyr, cefnogwch ef drwy anfon rhywun o'ch blaen i bwysu'r botwm cyn i Elis ei gyrraedd.

Os yw Elis wedi blino pan mae'n cyrraedd yr ysgol, aiff i gysgu yn y gadair yn yr ystafell ddosbarth am gyfnod byr. Gadewch iddo wybod ei bod yn iawn gwneud hyn drwy ddweud wrtho a mynd ag ef at ei gadair. Gwybod y bydd Elis yn taro cwpanau oddi ar y bwrdd os cânt eu gadael o'i flaen. Cefnogwch ef drwy gofio hyn a'u symud bob amser pan mae yno. Mae Elis yn defnyddio cwpan wedi'i hinswleiddio gyda chaead arni. Cofiwch nad yw Elis fel arfer yn gofyn am bethau felly mae'n bwysig rhoi dewis iddo drwy gydol y dydd. Gallwch wneud hyn yn llafar a bydd Elis yn ymateb drwy fynd at yr hyn mae ei eisiau.

Beth ydyn ni'n werthfawrogi am Elis?

Mae ganddo wên fach ddigywilydd a llygaid disglair.

Mae'n sensitif at ei ffrindiau.

Y ffordd y mae'n defnyddio ei lygaid a'i ystumiau i gyfathrebu.

Ei fod yn gwybod beth mae eisiau, mae'n benderfynol iawn.

Y ffordd mae'n adeiladu perthynas ac yn rhyngweithio'n

gadarnhaol gyda phobl mae'n eu hadnabod ac yn eu hoffi.

Beth sy'n bwysig i Elis

Ei fam, ei dad a'i frawd.

Cael cefnogaeth 1 i 1 gan staff mae'n eu hadnabod ac yn eu hoffi yn y dosbarth.

Bod mewn ystafell ddosbarth gyda dim ond ychydig o bobl eraill.

Medru mynd gyda Shelly i Allt Wen i'r ystafell synhwyraidd bob prynhawn dydd lau.

Mynd i Antur Waunfawr bob bore dydd Mawrth i ddefnyddio'r offer synhwyraidd a cherdded o amgylch y gerddi yno.

Mynd i nofio ym Mhwlheli gyda Shelly ddwywaith yr wythnos, mae hyn fel arfer ar ddydd Llun a dydd Mercher.

Medru mynd tu mewn pan mae eisiau fel ei bod yn cael mwy o le o'i amgylch.

Nad yw pobl yn tyrru o amgylch Elis. Mae hynny'n golygu nad oes dim mwy nag un person gydag ef ac y gall eistedd wrth y bwrdd ar ei ben ei hun os yw'n dymuno.

Bod yn rhan o'r dosbarth a bod gyda'i ffrindiau yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn golygu cael cyfle i wneud yr un peth â phawb arall.

Mynd gyda'i weithwyr cymorth Shelly a Gwion ddwywaith yr wythnos i gerdded ar y traeth, i therapi adlam neu'r ystafell synhwyraidd.

Cael strwythur i'w ddiwrnod a gwybod beth fydd yn digwydd bob dydd. I Elis mae hyn yn golygu beth sy'n digwydd pan fydd y gweithgaredd yn gorffen a beth sy'n dod nesaf.

Medru defnyddio cyfrifiadur llechen; mae Elis yn hoffi troi'r camera ymlaen ac edrych arno'i hun arno.

Medru defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol; mae Elis yn mwynhau amrywiaeth o raglenni.

Medru gwrando ar gerddoriaeth a chwarae'r drymiau. Mae'n hoffi'r rhan fwyaf o gerddoriaeth boblogaidd.

Mae Elis yn hoffi cael helmed neu het yn gorchuddio ei ben.

Proffil un dudalen Erin

Mae Erin yn 16 oed ac yn byw gartref gyda'i theulu. Mae parlys yr ymennydd ar Sara ac mae'n mynychu ei hysgol uwchradd brif-ffrwd lleol. Mae'n ferch ifanc benderfynol sydd wrth ei bodd yn gwrando ar gerddoriaeth, bod gyda'i ffrindiau a nofio. Mae wrthi'n hyfforddi ar gyfer y treialon ar gyfer y Gemau Paralympaidd yn Rio yn 2016.

Cafodd Erin **broffil un dudalen** pan oedd yn trosglwyddo ac yn dechrau meddwl am ei champau nesaf. Roedd ganddi weithiwr allweddol trosglwyddo a gredai y byddai'n syniad da i ddatblygu ei phroffil fel y gallai Erin gyflwyno ei hunan i'r gweithwyr proffesiynol newydd oedd yn dechrau gweithio gyda hi, heb orfod ailadrodd popeth drwy'r amser. Teimlai hefyd y byddai'n helpu gweithwyr proffesiynol i ddod i adnabod Erin yn gyflymach a chael gwell syniad am bwy oedd hi a'r gefnogaeth y gallai fod ei hangen pan oeddent yn cwrdd â hi.

Ymwelodd ei gweithiwr allweddol gyda Erin yn ei chartref ac yn yr ysgol i ganfod beth oedd pobl eraill yn ei werthfawrogi amdani, y pethau oedd yn bwysig iddi ac yn union pa gefnogaeth roedd ei hangen. Gofynnodd i Erin beth oedd yn gwneud diwrnod da iddi a disgrifio'r hyn ddigwyddai pan oedd yn cael diwrnod gwael. Siaradodd gyda'i hathrawon a'i chynorthwyydd personol yn yr ysgol, a gyda'i theulu yn eu cartref. Gwiriodd Erin bopeth yr oedd ei gweithiwr allweddol wedi'i ysgrifennu, a chytuno neu newid yr hyn oedd angen ei newid.

Gwnaeth gweithiwr allweddol Erin yn siŵr fod gan bawb oedd yn gweithio gyda hi gopi o'i **phroffil un dudalen**. Rhoddwyd copi i'w chynghorydd gyrfaoedd, ei gweithiwr cymdeithasol a'i gweithiwr cymorth, yn ogystal ag i staff yn yr ysgol. Fe wnaethant ei ddefnyddio i ddod i adnabod Erin ac i wneud yn siŵr eu bod yn cefnogi Erin yn y ffordd gywir ond cafodd hefyd ei ddefnyddio fel man cychwyn i ddatblygu cynllun trosglwyddo Erin ymhellach. Byddai ei bywyd wedi cymryd cyfeiriad gwahanol iawn oni bai am hyn.

Dywedodd Erin "Fe wnaeth helpu pobl eraill i ddod i fy adnabod yn well ac athrawon eraill i fy neall yn well."

Mae Erin a'i theulu'n cytuno fod y **proffil un dudalen** wedi'u gyrru ar daith na fyddent erioed o'r blaen wedi ei hystyried yn bosibl. Roedd yn gatalydd ar gyfer yr holl broses drosglwyddo, y proffil, yr adolygiadau canolbwyntio ar unigolion a'r cynllun gweithredu.

Erin Edwards

Ebrill 2013



Beth mae pobl eraill yn ei werthfawrogi am Erin

Ei hiwmor a'i synnwyr digrifwch
Cariadus iawn

Ei chalon fawr a'i bod mor ystyriol tuag at bobl eraill Ei
dyfalbarhad, mae'n rhoi 100% i bopeth

Bob amser yn barod i helpu

Y ffordd mae'n wynebu sefyllfaoedd anodd

Mae'n chwerthin ar jôcs ei thad!

Mae'n gall ac yn aeddfed

Beth sy'n bwysig i mi nawr

- Rwy'n mwynhau treulio amser gyda fy nheulu, fy mam, fy nhad, fy mrawd mawr a fy chwaer fach. Rydyn ni'n gwneud llawer o wahanol bethau gyda'n gilydd a bob amser yn cael hwyl. Rydw i hefyd yn mwynhau gweld fy mherthnasau eraill; maent i gyd yn byw i ffwrdd, felly dw i ddim yn eu gweld llawn mor aml.
- Rydw i wrth fy modd yn treulio amser gyda fy ffrindiau. Mae gen i ffrindiau yn lleol, ond mae gen i hefyd llawer o ffrindiau da sy'n byw i ffwrdd ac yn eu gweld bob ychydig fisoedd ac yn cadw mewn cysylltiad â nhw ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mynd i hyfforddiant nofio unwaith yr wythnos gan fy mod yn paratoi ar gyfer y treialon ar gyfer y gemau Paralympaidd yn Rio yn 2016.
- Rydw i'n wirioneddol fwynhau mynd allan gyda Cari, fy ngweithwraig cefnogi, unwaith yr wythnos. Rydyn ni'n gwneud llawer o wahanol bethau gyda'n gilydd. Rydw i'n hoffi mynd i'r sinema a choginio gyda hi. Fe gawson ni 'Come Dine with Me' gyda fy ffrindiau a chael llawer o hwyl.
- Medru gwneud fy ngwaith ysgol. Rydw i bob amser yn gwneud fy ngorau glas gan mod i eisiau mynd i'r coleg ar ôl ymadael â'r ysgol i wneud lechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Rhian ydi fy nghynorthwyydd personol yr ysgol ac mae'n fy helpu yn ystod y gwersi. Mae gen i berthynas wych gyda hi ac mae'n wirioneddol fy helpu i wneud yn dda.
- Rydw i'n hoffi cael amser i ddarllen fy hoff gylchgrawn. Rydw i'n hoffi darllen beth sy'n digwydd gyda'r 'selebs' ac yn mwynhau'n arbennig ddarllen am Kate a William.
- Cael amser i fi fy hun yn fy ystafell wely i wrando ar pa bynnag gerddoriaeth rydw i eisiau. Does gen i ddim ffefryn neilltuoel, ond dwi'n hoffi gwrando ar beth bynnag sydd yn y siartiau ar y pryd.
- Rydw i'n hoffi gwybod beth sy'n digwydd, pryd a beth i'w ddisgwyl fel y gallaf baratoi fy hun.
- Gallu mynd ar y cyfrifiadur adre fel y gallaf fynd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Y ffordd orau i fy nghefnogi

- Gwneud yn siŵr fod gen i gefnogaeth 1:1 yn yr ysgol. Rhian yw fy Nghynorthwyydd Personol a hi sy'n fy helpu fel arfer ond os nad yw hi ar gael, mae angen i rywun arall fy helpu.
- Weithiau mae gwaith ysgol yn gallu bod yn ormod i fi. Gallwch fy nghefnogi drwy'n gyntaf siarad gyda fi a fy nghysuro. Mae'n helpu os ydych yn dangos i mi sut y rannu gwaith i dasgau y gallaf ymdopi gyda nhw.
- Os nad ydw i'n deall y gwaith, ewch drosto gyda fi yn unigol fel y gallaf ofyn unrhyw gwestiynau sydd angen i mi yn dawel.
- Gwybod mod i'n defnyddio gliniadur yn yr ysgol i wneud fy ngwaith ac angen help i ddarllen unrhyw gwestiynau. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer arholiadau mewnol ac allanol.
- Gwybod pan fyddwn yn defnyddio ffyn mesur, protactors neu offer arall, y bydd angen i chi fy helpu drwy eu dal yn eu lle. Os ydyn ni'n defnyddio graffiau neu ddiagramau, mae angen i chi eu gwneud a byddaf i yn eu labelu.
- Gwybod mod i angen cefnogaeth gyda thasgau ymarferol arall fel gwisgo fy sanau ac esgidiau a chau botymau neu sipiau. Byddaf yn gofyn i chi am help pan fyddaf ei angen.
- Rydw i angen cefnogaeth weithiau i wneud fy ngwaith cartref. Byddaf yn gofyn pan ydw i angen hyn, ac fel arfer mae'n golygu rhannu tasgau yn ddarnau y gallaf ymdopi gyda nhw, a chymorth ymarferol os oes angen i mi ddefnyddio unrhyw offer. Mae mam a dad yn fy helpu fel arfer, ond mae Cari hefyd yn fy helpu i adolygu.
- Rydw i'n hoffi gwybod beth sy'n digwydd a phryd ac felly rydw i wedi dechrau defnyddio dyddiadur i fy helpu. Rydw i angen cefnogaeth i fy atgoffa i roi apwyntiadau, gweithgareddau penodol neu ddyddiadau penodol i mewn, ac i chi roi'r wybodaeth i mi i'w rhoi yn y dyddiadur pan fydd hi gennych.

Dechreuodd pobl wrando ar Erin a'i helpu i ymchwilio'r gwahanol opsiynau sydd ar gael iddi.

"Fe wnaeth i mi deimlo'n well amdanaf fy hun a hybu fy hyder. Mae pobl yn fy adnabod, yn fy neall ac maent wedi fy helpu."

Roedd Erin hefyd yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am yr hyn roedd ei eisiau a phenderfynodd fynd i'w choleg lleol i astudio iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Medi. Nid oedd ei theulu wedi ystyried hyn o'r blaen a chredent y byddai yn gwneud yr un fath â'i brawd a mynd i'r chweched dosbarth yn yr ysgol. Roedd yn rhaid iddi sefyll prawf sgiliau sylfaenol cyn cael ei derbyn i'r coleg a dywedodd hi a'i mam na fyddai byth wedi bod yn ddigon hyderus i wneud hynny cyn dechrau ar y gwaith yma. Gwnaeth yn wirioneddol dda yn y prawf a hyd yn oed ei synnu hi ei hun. Rhoddodd hefyd hyder i Erin i fynychu ei hadolygiad blynyddol, rhywbeth yr oedd wedi gwrthod ei wneud yn flaenorol, a gwnaeth hi a'i gweithiwr allweddol yn siŵr ei fod yn adolygiad canolbwyntio ar unigolyn fel y byddai Erin yn teimlo'n fwy mewn rheolaeth. Arweiniodd hyn ymysg pethau eraill at Erin i ddweud ei bod eisiau dysgu mwy o sgiliau byw annibynnol, felly mae'n awr yn dysgu coginio, a hyd yn oed wedi cymryd rhan mewn 'come dine with me' gyda'i ffrindiau fel canlyniad, oedd yn llawer iawn o hwyl.

Mae dechrau gyda **phroffil un dudalen** wedi bod yn werthfawr iawn i Erin a'i theulu. Mae wedi rhoi llais iddi wrth ddewis a rheoli ei bywyd ei hun, ond yn bwysicaf oll, rhoddodd hyder iddi roi cynnig ar bethau newydd.

Mwy o fanteision proffiliau un dudalen

Mae gan **broffiliau un dudalen** lawer o fanteision a gall eu heffeithiau fod yn bellgyrhaeddol.

Pob dysgwr

Ar adegau o drosglwyddo, mae **proffil un dudalen** yn galluogi pawb i ddod i adnabod y dysgwr yn gyflym ac fel unigolyn.

Mae **proffil un dudalen** yn sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu beth sydd bwysicaf i'r dysgwr yn ogystal â'u hanghenion cefnogaeth.

Gall **proffiliau un dudalen** helpu ysgol neu goleg i ddynodi newidiadau – bach neu fawr – a all wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau rhai neu lawer o ddysgwyr. Gallant ffurfio sail dogfennau

mwy manwl megis cynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion, CVs, datganiadau personol a chynlluniau gyrfa. Gall dysgwyr hefyd eu defnyddio i gefnogi eu ceisiadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i addysg.

Dysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig

Mae gweithwyr proffesiynol yn aml yn fedrus iawn wrth benderfynu beth sy'n bwysig ar gyfer dysgwr sydd ag anghenion addysgol arbennig: yn draddodiadol maent wedi canolbwyntio ar nodi'r gefnogaeth mae'r dysgwr ei hangen. Caiff gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig **i'r** dysgwyr – beth a phwy sydd bwysicaf iddynt – ei cholli neu barhau'n gudd. Gall labeli a diagnoses olygu y caiff hunaniaeth y dysgwr ei guddio neu ei anwybyddu.

Gall **proffil un dudalen** roi'r dysgwr a'u teulu yn ôl yn y canol. Mae'n helpu pawb sy'n gweithio gyda nhw i'w deall yn gyflym fel person yn hytrach na label. Ac mae'n canolbwyntio cynllunio tymor hirach ar y cydbwysedd rhwng y gefnogaeth mae dysgwr ei angen a'r hyn sydd bwysicaf iddynt.

Mae **proffil un dudalen** estynedig yn eich galluogi i gynnwys mwy o wybodaeth, pan nad yw un tudalen yn ddigon.

Rhieni

Mae rhieni'n cymryd rhan a chaiff eu harbenigedd am eu plentyn ei chlywed a'i gwerthfawrogi. Maent yn teimlo'n fwy hyderus fod yr ysgol yn deall eu plentyn ac y bydd yn gwneud yn siŵr y caiff y rhieni a'r plentyn eu cefnogi'n dda.

Staff ac ysgol

Drwy ddod i adnabod dysgwyr newydd yn gyflym, gall staff bersonoli dysgu ar unwaith ac osgoi gostyngiadau mewn cynnydd. Mae gwersi'n rhedeg yn fwy esmwyth.

Pan fo gan staff **broffiliau un dudalen**, gallant gefnogi ei gilydd yn dda. O'u defnyddio wrth oruchwylio a sesiynau un i un, maent yn rhoi cofnod defnyddiol o'r ffordd orau i gefnogi pob aelod o staff. Gellir eu defnyddio fel sylfaen i gynlluniau datblygu megis y cynllun datblygu ysgol ac i gefnogi cyfarfodydd rheoli perfformiad gyda ffocws.

Gall **broffiliau un dudalen** staff ddatgelu'r hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio ar gyfer unigolion a thimau cyfan, a hybu newid cadarnhaol. Gellir eu defnyddio i ddechrau cynllun tîm sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Mae **proffiliau un dudalen** o lywodraethwyr yn eu helpu i ddod i adnabod ei gilydd a meddwl am sut i gydweithio.

Cyngor da

- Gwrando ar yr hyn mae rhywun yn ei ddweud **a'r** ffordd y maent yn dweud hynny – gall iaith corff a thôn llais ddweud llawer.
- Defnyddio offerynnau eraill sy'n canolbwyntio ar unigolion i ysgogi sgwrs, e.e. gallwch siarad drwy **gylch perthynas** dysgwr neu **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio**.
- Meddwl am y pethau nad yw person yn eu dweud.
- Edrych am themâu cyson.
- Herio yn dringar yr hyn a glywch gan eraill. Er enghraifft, gallech ofyn 'Pa mor siŵr ydych chi fod hynny'n bwysig i'r dysgwr yma?'
- Dechrau gyda chi eich hun. Y ffordd orau i ddeall y dull gweithredu a phwysigrwydd ei gael yn iawn i bobl eraill yw profi'r broses o greu eich **proffil un dudalen** eich hun. Gallech wneud hyn fel rhan o ddiwrnod hyfforddiant, e-ddysgu, sesiwn hyfforddi neu sesiwn gyda'r nos.
- Ymarfer. Po fwyaf o **broffiliau un dudalen** a wnewch, y rhwyddach y daw: caiff y cwestiynau a ofynnwch eu mireinio'n fwy a byddwch yn hyddysg ar ddyfalu, gofyn ac ysgrifennu'r hyn sy'n bwysig i'r person.
- Gofyn i rywun nad yw'n adnabod y person ifanc i ddarllen y **proffil un dudalen** rydych wedi eu creu gyda nhw. Fyddai'r person yna'n awr yn gwybod sut yn union i gefnogi'r plentyn hynny yn seiliedig ar yr hyn a ysgrifennwyd yn y proffil? A ydynt yn teimlo eu bod wedi cael cipolwg go iawn ar y person o ddarllen y **proffil un dudalen**? Dylid cynnwys datganiadau cryf, clir a phenodol yn lle jargon a datganiadau amwys a all olygu gwahanol bethau i wahanol bobl.

Offeryn gwerthfawrogi


Pam defnyddio offeryn meddwl gwerthfawrogi?

Mae offeryn meddwl **gwerthfawrogi** yn ein helpu i ganfod beth mae pobl eraill yn ei hoffi ac edmygu am gymeriad a phersonoliaeth unigolyn. Mae'n dynodi sgiliau, rhoddion, talentau a diddordebau'r dysgwr.

Pan fo eraill yn gwerthfawrogi'r dysgwr gallant yn aml ddod â dirnadaeth am dalentau a nodweddion y dysgwr nad yw'r dysgwr ei hunan yn ymwybodol ohonynt. Yn fwy na hyn, mae'r weithred o werthfawrogi mor gadarnhaol fel y gall defnyddio'r offeryn meddwl yma roi hwb sylweddol i ymdeimlad dysgwyr o hunanwerth a lles.

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwch gyda'r offeryn meddwl **gwerthfawrogi** i fod yn sylfaen ar gyfer **proffil un dudalen** y dysgwr, mewn adolygiadau ac i feddwl am ffyrdd y gall y dysgwr gyfrannu at eu hysgol, coleg neu gymuned.

Sut i ddefnyddio'r offeryn meddwl gwerthfawrogi



Gallwch gasglu gwybodaeth ar gyfer yr offeryn meddwl **gwerthfawrogi** ym mhob math o ffyrdd. Mae rhai dosbarthiadau neu grwpiau yn trafod gyda'i gilydd beth sy'n gwneud rhywun yn ffrind da neu'n casglu'r holl eiriau cadarnhaol y maent yn meddwl amdanynt i ddisgrifio rhywun. Gyda'r ddirnadaeth yma, mae'r dysgwyr wedyn yn rhannu eu gwerthfawrogiad o'u cyfoedion. Gallwch weld sut y gwnaeth dwy ysgol hyn yn yr enghreifftiau isod.

Mae rhai ysgolion yn gofyn i ddysgwyr fynd â cherdyn post gwag adref i'w rhieni i'w anfon yn ôl gyda phum datganiad cadarnhaol yn dweud yr hyn y maen nhw a'u teulu yn ei werthfawrogi am eu plentyn. Mae'r cardiau post yn gwneud i'r dysgwyr deimlo'n gadarnhaol iawn amdanynt eu hunain a gallant wneud arddangosiad gwych.

Enghreifftiau o offerynnau gwerthfawrogi ar waith

Meddwl yn gadarnhaol

Cymerodd Kate Goodwin o ysgol gynradd yn Wrecsam ddull gweithredu dosbarth cyfan i gasglu gwerthfawrogiad ar gyfer pob plant. Mae'n disgrifio'r broses isod.

'Fel cyflwyniad, fe wnaethom feddwl faint o wahanol ansoddeiriau cadarnhaol y gallem feddwl amdanynt i ddisgrifio person arall. Roedd rhai rheolau sylfaenol – dywedwyd wrthym am barchu teimladau ac emosiynau pobl, ac ar y cam hwn nid oedd yn rhaid i'r person yr oeddent yn meddwl amdano fod yn yr ystafell nac yn yr ysgol. Caniatawyd i blant feddwl am aelodau teulu neu rywun arall oedd yn bwysig iddyn nhw'n bersonol yn eu bywydau.

O'r un gweithgaredd yma, fe wnaethom gasglu cronfa eiriau ryfeddol y gwnaethom ei drafod fel dosbarth.

Fe wnaeth hyn fy arwain at rannu gyda'r plant y gweithgaredd cerdyn post y gwnaethom ei orffen fel 'gwaith cartref' fel rhan o ddiwrnod hyfforddiant meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion. Esboniais fy mod wedi cwrdd â dwy ffrind y noswaith honno ac wedi gofyn iddynt lenwi 'fy ngherdyn post'. Gofynnwyd iddyn nhw ysgrifennu tair nodwedd y teimlent oedd yn fy nisgrifio.

Yn dilyn hynny, esboniais i'r dysgwyr eu bod yn mynd i ddefnyddio tri ansoddair i ddisgrifio person arall o'u dosbarth. Fe wnaethom drafod sut yr hoffent 'baru'. Fe wnaethom gynnig dewis o weithio gyda 'phartneriaid siarad' neu gael ryw ddewis am bwy yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Teimlai'r dysgwyr y byddai'n well ganddyn nhw

weithio gyda phartner yr oedden nhw'n ei ddewis: yn gyffredinol roeddent yn paru gyda dysgwyr o'r un rhyw, ond nid bob amser, a doedden ni ddim yn ystyried fod y ffactor yma'n bwysig.

Fe wnaethon ni edrych wedyn ar y gronfa geiriau i'n hatgoffa am y gwaith gwych roedd y dosbarth eisoes wedi'i wneud.

Fe gafodd y dysgwyr gyfle i baru a rhoddwyd templed cerdyn post A5 i bob dysgwyr gyda'r rhifau 1, 2, 3 arno. Gofynnwyd i'r dysgwyr wedyn lenwi'r cerdyn post ar gyfer eu partner yn gyfrinachol. Ar ôl llenwi'r cardiau post, fe wnaeth y dysgwyr eu cyfnewid gyda'i gilydd. Y cof sydd gen yma yw o'r emosiynau a ddaeth gan bob un dysgwyr pan oedd rhywun yn wirioneddol wedi gwerthfawrogi eu nodweddion unigol. Roedd llawer yn y seithfed nef. Ar ôl ychydig fe wnaethom gasglu'r dysgwyr at ei gilydd a rhannu beth oedd y dysgwyr eraill wedi dweud amdanyn nhw.

Fe wnaethon ni esbonio i'r dysgwyr y byddai'r cardiau post yma'n cael eu defnyddio pan oedden ni'n dechrau gwaith ar eu **proffiliau un dudalen** eu hunain.'


Cwilt nodweddion

Defnyddiodd ysgol o Ogledd Cymru yr offeryn **gwerthfawrogi** a gwneud eu 'Cwilt nodweddion', 'Stryd nodweddion' a 'Grisiau cryfder' eu hunain a'u dangos drwy'r ysgol. Maent yn disgrifio sut y gwnaethant hyn.

'Drwy fini-bwnc datblygiad personol a chymdeithasol yn Ionawr 2015, "Iechyd a hapusrwydd", cynhaliodd y dysgwyr sesiwn syniadau wedi'i gysylltu gyda'r thema yma. Roedd dysgwyr yn ystyried bod cyfeillgarwch yn rhan ganolog o fod yn hapus. Drwy drafodaeth, straeon ac amser cylch, ystyriodd y dysgwyr gwestiynau fel 'Pa nodweddion personol sydd gan fy ffrindiau?', 'Sut y gallaf sicrhau fy mod yn ffrind da?' a 'Pam fod cyfeillgarwch yn bwysig?'

Fe wnaeth yr holl blant o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6 un ai hunan-bortread neu tynnwyd llun ohonynt ac fe wnaethant gofnodi nodweddion yr oedden nhw a'u ffrindiau wedi'u gwneud ar siâp hecsicon. Fe ddaeth y siapiau gyda'i gilydd i wneud arddangosiadau ar ffurf 'Cwilt nodweddion', 'Stryd nodweddion' a 'Grisiau cryfder'.

Mae brithwaith yr hecsagonau yn nodweddu ac yn dathlu pwysigrwydd nodweddion personol gydol oes wrth ein galluogi i ffurfio a chynnal perthynas fel rhan o fywyd iach a hapus.'



Mwy o fanteision offeryn meddwl gwerthfawrogi

Dysgwyr

Gallwch ddarganfod fod dysgwr yn ddawnus neu'n dalentog mewn maes na wyddech amdano. Gallai hyn fod yn sylfaen i'ch rhaglenni ar gyfer dysgwyr dawnus.

Rhieni

Mae'r gweithgaredd yma'n nodi tŷn gadarnhaol ar gyfer sgysiau ac adolygiadau gyda rhieni a all arwain at feddwl mwy creadigol a datrys problemau.

Staff ac ysgol

Mae hwn yn offeryn defnyddiol i staff ei ddefnyddio eu hunain fel rhan o weithgareddau adeiladu tîm. Gall ddynodi cryfderau a thalentau cudd neu nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn yn y tîm staff a'r corff llywodraethu. O'u defnyddio ar draws yr ysgol, gall helpu staff uwch i gasglu gwybodaeth am werthoedd pawb a gall hyn fod yn sylfaen i ddatganiad cenhadaeth ysgol.


Gallwch ddefnyddio'r offeryn meddwl yma i gasglu gwybodaeth am yr hyn mae dysgwyr, rhieni a staff yn ei hoffi a'i edmygu am yr ysgol i baratoi ar gyfer arolygiadau neu gyfarfodydd allanol.

Cyngor da

- Fel arfer mae pum datganiad cryf, ansawdd da ar gyfer pob elfen o'r offeryn meddwl **gwerthfawrogi** yn ddigon.
- Canolbwyntio ar nodweddion yn hytrach nag ar ymddangosiad neu lwyddiant academaidd.
- Meddwl am ddoniau, sgiliau, nodweddion a thalentau'r dysgwr yn ogystal â'r pethau sy'n eich gwneud yn falch i'w hadnabod.
- Osgoi geiriau ac ymadroddion megis 'fel arfer', 'weithiau' a 'gall fod'. Mae ysgrifennu 'gall fod' am rywun yn awgrymu nad ydynt felly y rhan fwyaf o'r amser.
- Ymarfer gwahanol ffyrdd o rannu gwrthfawrogiad: mae'r rhan fwyaf ohonom yn anghysurus i ddechrau pan mae pobl yn ein canmol ac yn ansicr sut i ymateb.
- Mae'n well gan rai dysgwyr ddarllen gwerthfawrogiad na chlywed rhywun yn ei ddweud wrthynt.
- Cynyddu eich geirfa: rhwch gynnig ar ddisgrifio pobl enwog i ddechrau. Er enghraifft, gallai eich dysgwyr ddisgrifio Roald Dahl fel 'creadigol', 'dychmygus', 'doniol' a 'dyfeisgar'.

Diwrnod da – diwrnod gwael

Pam defnyddio offeryn meddwl diwrnod da – diwrnod gwael?



Mae offeryn meddwl **diwrnod da – diwrnod gwael** yn gadael i ni ganfod yn benodol beth sy'n gwneud diwrnod da a diwrnod gwael i bob dysgwr. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am y cartref, megis hoffi cael brecwast gyda brawd neu chwaer hŷn neu beidio hoffi bod yn hwyr am y bws, yn ogystal â gwybodaeth benodol am yr ysgol neu goleg, megis hoffi cael rhestr o bob tasg am y dydd neu deimlo'n bryderus pan ofynnir iddynt ddarllen o flaen dysgwyr eraill.

Gyda'r wybodaeth yma, gallwch ddeall mwy am yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwr, a gallwch wneud yn siŵr fod ganddynt yn union y gefnogaeth maent ei hangen bob dydd yn yr ysgol neu goleg.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r wybodaeth i greu rheolau ar gyfer y dosbarth cyfan sy'n disgrifio beth mae pawb ei angen i gael diwrnod da. Gallwch hyd yn oed ymestyn hyn i'r ysgol neu'r coleg cyfan, gan helpu i'w wneud yn fan lle mae pawb yn hapus i ddysgu.

Sut i ddefnyddio offeryn meddwl diwrnod da – diwrnod gwael

Gallwch feddwl am a chasglu gwybodaeth am ddiwrnod da a diwrnod gwael mewn sgysiau anffurfiol gyda dysgwr a gyda phobl sy'n eu hadnabod yn dda. Gallwch ddefnyddio arsylwadau o'r dysgwr y tu mewn a hefyd tu allan i'r ysgol neu goleg.

Ar y llaw arall, gallwch wneud hyn yn weithgaredd mwy strwythuredig drwy gynllunio gwersi i helpu dysgwyr feddwl beth sy'n gwneud diwrnod da a diwrnod gwael.

Rhannu diwrnod yn ddarnau

Un ffordd yw gofyn i'r dysgwr feddwl am eu diwrnod gorau oll. Rhannwch y diwrnod yn ddarnau o'r amser y codant yn y bore i pan fyddant yn cysgu yn y nos a mynd drwy'r dydd un darn ar y tro.

Nesaf gofynnwch i'r dysgwr feddwl am eu diwrnod gwaethaf, unwaith eto yn ei rannu yn ddarnau.

Mae rhai dysgwyr yn ei chael yn anodd siarad am ddiwrnod gwael – fel pe byddent yn ei ail-fyw – felly efallai y gallech ddewis yn lle hynny i feddwl am fore da a dilyn hynny gyda bore gwael, yna amser cinio da ac amser cinio gwael, ac yn y blaen.

Gofynnwch gwestiynau a chanfod gwybodaeth gan bwyll bach. Byddwch yn barod i'r sgwrs grwydro.

Canfod gwybodaeth gyda chwestiynau

Mae'r cwestiynau y gallech eu gofyn yn cynnwys (addaswch y geiriau yn dibynnu ar y dysgwr):

- beth wyt ti'n ei wneud ar dy hoff ddiwrnod o'r wythnos?
- a fedri ddweud wrthyf am yr adegau pan yr wyt yn cael mwyaf o hwyl?
- pa bethau sy'n gwneud i ti deimlo'n wirioneddol dda?
- pwy sydd gyda ti am bob rhan o'r dydd, neu ar gyfer gwers neu weithgaredd neilltuol? Gallai diwrnod da neu wael ddibynnu ar y bobl sydd o amgylch. Gall yr wybodaeth yma eich helpu i baru dysgwyr a staff
- ble wyt ti'n gwneud y gweithgaredd yma neu pan fo'r peth yma'n digwydd?

- wyt ti'n hoffi bod yn brysur neu wneud pethau'n arafach?
- sut wyt ti'n teimlo am wybod yn union beth sy'n mynd i ddigwydd?

Enghreifftiau o ddiwrnod da – diwrnod gwael ar waith

Ysgol gynradd

Defnyddiodd yr athro ysgol gynradd yr offeryn meddwl **diwrnod da – diwrnod gwael** i ddechrau datblygu **proffiliau un dudalen** gyda'i dosbarth cyfan.

'I osod y llwyfan fe wnes ddangos fy "mag bach" i'r plant. Roeddwn wedi cadw ychydig o eitemau ynddo sy'n helpu i wneud diwrnod da i fi.

Cyn rhannu dim o'r eitemau, fe wnaethom drafod yn gyntaf beth sy'n ddiwrnod da a'u canfyddiad o'r hyn sy'n gwneud diwrnod da. Gall y dysgwyr i gyd nodi beth sy'n gwneud diwrnod da yn yr ysgol: tywydd braf amser chwarae, llawer o ffrindiau i chwarae gyda nhw, cael cyfle i chwarae ar y cae, ac ati. Dim byd annisgwyl yma. Fe wnaethom wedyn feddwl am y pethau bach a'r camau sy'n helpu i wneud diwrnod da iddyn nhw fel unigolion.

Pan ddangosais fy mwg tsieina cain a bag te i'r plant, daeth y plant yn gliriach am yr elfen bersonol. Maent yn fy adnabod mor dda a sylweddoli fod Mrs Goodwin yn fenyw hapus os caiff gwpanaid o de. Fe wnes wedyn ddangos dau lun i'r dosbarth a sylwodd rhai o'r dysgwyr mai fy mhlant oedd y ddau oedd yn y lluniau. Fe wnes ofyn wedyn iddynt 'pam mod i wedi cynnwys lluniau o fy mhlant?' Roedd amrywiaeth o atebion ond ar ôl holi gofalus, y ffaith bwysicaf, gan fod y ddau ohonynt yn byw yn Llundain, yw'r ffaith fy mod yn gorfod siarad gyda'r ddau ohonynt bob dydd, a bod hynny'n hanfodol bwysig i mi. Nid oes angen i ni gael sgwrs hir: y cyfan sydd angen i mi yw clywed eu lleisiau. Nid oedd y ddwy eitem olaf yn annisgwyl i'r plant: minlliw a phersawr.

Y cam nesaf oedd i'r plant ddweud wrth eu partneriaid siarad am bum peth oedd yn bwysig iddynt. Dywedodd un ferch fach, Rhiannon, "Mae angen i mi ddewis tei Dad yn y bore". Ar ôl mwy o holi, daeth yr ystyr cudd tu ôl i'r weithred syml yma'n glir – mae'n golygu ei bod wedi codi'n ddigon cynnar i gael sgwrs gyda'i thad, dewis ei dei a'i weld yn mynd i'r gwaith.

Yna symudodd dysgwyr ymlaen i'r gwaith unigolion lle gwnaethant baratoi eu tudalennau **diwrnod da – diwrnod gwael** eu hunain. Bwydodd y gwaith yma i'w **proffiliau un tudalen** eu hunain.'

Diwrnod da Molly



- Mam yn mynd â fi yn y bore.
- Ffarwelio hefo mam a dad yn iawn yn y bore, a cael cwtsh a chusan.
- Cerdded am o leiaf 5 munud i gyrraedd yr ysgol.
- Cael gwersi sy'n gadael i chi fod yn greadigol a chymryd cyfle - arbrofi a dim bwys os ydw i yn cael pethau'n anghywir.
- Llawer o hwyl gyda fy ffrindiau.
- Ein criw i gyd yn chwarae gyda'n gilydd.
- Mam neu Dad yn dod i fy nôl ar ddiwedd y dydd.
- Fi a ffrind yn cael swydd gan yr athro.
- Mam neu Dad adre pan fyddaf yn mynd adre o'r ysgol.
- Gwneud ysgrifennu a darlunio, posteri sydd orau.
- Darllen llyfrau antur da.
- Cerdded rhan o'r ffordd adre ar ôl yr ysgol.

Diwrnod gwael Molly



- Mam yn gorfod mynd i'r gwaith yn gynnar ac yn methu mynd â fi i'r ysgol.
- Gweld ar y bwrdd fod rhywbeth nad ydw i'n hoffi.
- Athro dan stres ac yn gweiddi.
- Athro yn gweiddi ar rywun yn gwneud i mi deimlo stres ac yn anghysurus.
- Teimlo mod i wedi gwneud rhywbeth o le fel peidio gwneud gwaith cartref neu lenwi cofnod ddarllen.
- Yr athro yn edrych ar gofnodion darllen - fy ngwneud i boeni.
- Dangos fy ngwaith i'r dosbarth heb ofyn.
- Gorfod aros am hir mewn gwasanaeth.
- Peidio cael egwyl, neu egwyl fer.
- Teimlo mod i'n methu cyrredd y targed - heb wneud rhywbeth y mae disgwyl i fi ei wneud neu ei wneud yn anghywir.
- Cael prawf heb wybod ei fod yn dod.
- Yr athro yn darllen canlyniadau'r prawf yn uchel.

Addysg bellach

Mae Katy yn ei hail flwyddyn yn y coleg yn astudio iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaeth baratoi beth sy'n gwneud diwrnod da a diwrnod gwael iddi yn y coleg, yn barod am ei hadolygiad canolbwyntio ar unigolyn. Fe wnaeth hyn ei helpu i feddwl am y pethau oedd yn bwysig iddi, e.e. cael amser i fod gyda'i ffrindiau a'r ffyrdd gorau i'w cefnogi, e.e. darlithwyr yn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi gwybodaeth iddi mewn darnau bach fel y gall ddilyn yn rhwydd beth sydd angen ei wneud, ac na chaiff ei llethu.

Diwrnod da Katy	Diwrnod gwael Katy
Y tacsï yn mynd â fi i'r coleg mewn pryd i dreulio ychydig o amser gyda fy ffrindiau cyn y dosbarth. Kirsty yn aros amdanaf pan fyddaf yn cyrraedd yn y coleg. Fy holl ffrindiau, yn arbennig Angharad, yn y coleg. Mae dyddiau Llun a dyddiau Gwener yn dda gan fod gen i amser rhydd i ddal fyny. Astudio maeth a hawliau cyfartal, rwy'n mwynhau'r pynciau hynny'n fawr iawn. Cael y gefnogaeth gywir gan ddarlithwyr ac maent yn mynd ar y cyflymder iawn i mi.	Dyddiau Mawrth, gan ei fod yn ddiwrnod llawn i mi. Darlithydd yn rhoi gormod o wybodaeth a dwi'n methu dal fyny. Darlithwyr ddim yn esbonio'n union beth maent eisïau i mi wneud ac rydw i wedyn yn poeni. Pan gaiff gwersi eu canslo a mod i'n gorfod aros am y tacsï ar fy mhen fy hun.

Mwy o fanteision yr offeryn meddwl diwrnod da – diwrnod gwael

Dysgwyr

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth yma i ddechrau datblygu **proffil un dudalen**. Gall meddwl fel hyn helpu dysgwyr i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw mewn addysg a sut y gallant ddod yn ddysgwr gwell. Gall dysgwyr werthfawrogi beth sy'n gwneud diwrnod da a diwrnod gwael i'r bobl o'u hamgylch.

Rhieni

Gall rhieni nodi ffyrdd y gallant helpu eu plentyn i gael mwy o ddiwrnodau da.

Staff

Gall staff ddefnyddio'r offeryn meddwl yma i feddwl am ffyrdd o newid yr ystafell, diwrnod neu wersi i fod o fudd i ddosbarth neu grŵp cyfan. Os yw staff yn defnyddio'r offeryn meddwl yma eu hunain, mae'n rhoi gwybodaeth wych i'w helpu i gefnogi ei gilydd.

Yr ysgol neu'r coleg cyfan

Gall yr ysgol ddefnyddio'r wybodaeth i ddatblygu strategaethau. Er enghraifft, os yw llawer o ddysgwyr yn dweud fod diwrnodau gwael yn gysylltiedig ag amserau chwarae, gallai gemau wedi'u strwythuro neu glybiau fod yn ymateb defnyddiol. Neu os oedd diwrnod da yn digwydd pan oedd dysgwyr y tu allan, gallai'r ysgol edrych am fwy o ffyrdd i wneud hyn.

Mae'r offeryn meddwl yma'n ffordd ddefnyddiol i asesu'r ffordd orau i gynnal gweithgareddau allgwriciwlaid mewn colegau.

Cyngor da

- Os yw'r dysgwr yn ei chael yn anodd meddwl beth sy'n gwneud diwrnod da neu ddiwrnod gwael, gofynnwch iddynt ddisgrifio diwrnod yr wythnos ddiwethaf oedd yn wirioneddol dda neu'n wirioneddol wael, ac yna ganfod pam. Os nad yw'r dysgwr wedi cael diwrnodau da ers peth amser, gofynnwch iddynt am ddiwrnod o'r gorffennol.
- Os na all y dysgwr ddweud wrthy ch eu hunain, yna nodwch deulu, ffrindiau a staff y gallwch ofyn eu barn – gallech ddefnyddio eu **cylich perthynas** i wneud hyn.
- Gwneud yn siŵr fod y ffocws ar y dysgwr. Beth sy'n gwneud diwrnod da neu ddiwrnod gwael iddyn nhw, ac nid i'r staff sy'n eu cefnogi?
- Ysgrifennu datganiadau manwl a phenodol ac osgoi cyffredinoli fel 'cael y gefnogaeth rydw i ei angen'. Sut beth yw cefnogaeth a phwy sy'n gysylltiedig?
- Peidio gweld dyddiau gwael fel rhywbeth na ellir ei unioni. Beth allwch chi ei wneud i wneud yn siŵr fod y dysgwr yn cael mwy o ddyddiau da a llai o ddyddiau gwael? Gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno ar gamau gweithredu CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol).
- Gall yr wybodaeth a gasglwch drwy ddefnyddio dull meddwl **diwrnod da – diwrnod gwael** fod yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio offerynnau meddwl eraill. Er enghraifft, gallech ddarganfod pethau am gyfathrebu'r dysgwr y gallech eu hychwanegu at eu **siart cyfathrebu** neu gallech ganfod am eu doniau ac ychwanegu atynt ar adran gwerthfawrogiad eu **proffil un dudalen**.


Dyheadau

Pam defnyddio offeryn meddwl dyheadau?

Gofynnir yn aml i ddysgwyr beth maen nhw eisiau fod ar ôl tyfu, neu ba yrfa yr hoffent ei chael. Rydym yn gofyn iddynt yn llawer llai aml pa fath o berson yr hoffent fod pan fyddant yn hŷn. Mae'r offeryn **meddwl dyheadau** yn helpu dysgwyr i feddwl am eu breuddwydion, personoliaeth, anghenion, dewisiadau a dyheadau, ac i ystyried eu dyfodol gyda dirnadaeth a dealltwriaeth.

Gyda'r wybodaeth yma, gallwch feithrin a chefnogi nodweddion a breuddwydion dysgwyr. Gyda'ch cefnogaeth chi, gall dysgwyr ddechrau cynllunio a chymryd camau i wireddu eu dyheadau, yn y tymor byr a hefyd y tymor hir.

Sut i ddefnyddio offeryn meddwl dyheadau



Mae dyheadau dysgwr yn rhan bwysig o bwy ydynt, felly mae'r dull meddwl yma'n ddefnyddiol tu hwnt wrth i chi ddatblygu **proffiliau un dudalen** neu baratoi ar gyfer adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Gallwch ddefnyddio offeryn meddwl **dyheadau** gyda dysgwr unigol (gallwch weld enghraifft o hyn isod) neu gyda grŵp. Y peth cyntaf i'w wneud wrth feddwl am ddyheadau yw canfod beth mae pobl yn ei hoffi ac edmygu am y dysgwr a beth sy'n bwysig iddynt. Os oes gan y dysgwr **broffil un dudalen** eisoes, caiff yr wybodaeth yma ei chofnodi yno. Os nad oes gan y dysgwr **broffil un dudalen**, gallwch ddefnyddio'r offeryn **meddwl dyheadau** i'ch helpu i'w ddatblygu.

Pan ofynnwch i'r dysgwr pa fath o berson yr hoffent ei fod, gall fod yn ddefnyddiol gofyn iddynt am bobl yn eu bywyd y maent yn eu hedmygu. Gall hyn eu helpu i ddynodi nodweddion yr hoffent feithrin ynddynt eu hunain.

Gallwch siarad gyda'r dysgwr ei hunan, yn ogystal â dysgwyr eraill a rhieni a'ch cydweithwyr, i ganfod yr hyn maent yn edmygu am y dysgwr a'r hyn a ystyriant yw eu cryfderau.


Cysylltwch yr holl wybodaeth a gasglwch, gan blethu'r hyn sy'n bwysig iddynt a'u cryfderau gyda'i gilydd i ddisgrifio eu dyheadau. Gallwch ddynodi camau gweithredu tymor byr a thymor hir gyda'r dysgwr a'r rhai o'u hamgylch, gan nodi pwy all gefnogi'r camau gweithredu neu fod yn gyfrifol am wneud iddynt ddigwydd.

Enghreifftiau o offeryn meddwl dyheadau ar waith

Dyheadau Molly

Mae Molly ym Mlwyddyn 5 a defnyddiodd hi a'i hathro offeryn meddwl **dyheadau** i'w helpu i nodi meysydd yn ei bywyd lle gall pobl eraill ei chefnogi a'i hannog a gwneud cynlluniau y gall weithio tuag atynt.

Mae cainc gyffredin o greadigrwydd a hunanfyneant yn rhedeg drwy offeryn meddwl **dyheadau** Molly, ac mae hi a'i hathro wedi nodi cyfleoedd i annog hyn mewn cerddoriaeth a chelf, sydd ill dau yn feysydd pwysig i Molly.



Stori dyheadau Jake

Mae Jake yn saith oed ac mae ei adolygiad eleni yn un pwysig oherwydd ei fod yn barod i symud ymlaen o'i leoliad addysgol cyfredol. Mae angen gwneud penderfyniadau ar gyfer ei addysg gynradd yn y dyfodol.

Mae **proffil un dudalen** Jake yn dweud wrthym beth mae ei deulu a'i staff yn yr ysgol yn ei edmygu ac yn hoffi ei natur allblyg a chyfeillgar, ei fod yn annog eraill i ymuno, arwain mewn chwarae a bod ganddo wên ar ei wyneb bob amser. Y pethau pwysicaf i Jake yw chwarae gyda'i ffrindiau, amser chwarae yn yr ysgol a mynd allan ar ei feic. Gwyddom ei bod yn bwysig i Jake gael amser i brosesu'r hyn mae'n ei glywed, i gael ei gefnogi gyda'i waith drwy roi cyfarwyddiadau cam-wrth-gam iddo a gwaith y mae'n teimlo y gall ei wneud. Mae cysyniad amser yn galed iddo ac mae'n gweithio orau iddo pan mae geirfa yn ymwneud gyda'r fan a'r lle.

Dechreuodd adolygiad Jake drwy siarad drwy ei **broffil un dudalen** a gwirio ei fod yn rhoi darlun da o Jake. Symudodd y sgwrs at ddyheadau Jake ar gyfer y dyfodol, rhywbeth nad oedd erioed wedi siarad amdano o'r blaen. Dywedodd mam Jake ei fod eisiau iddo fod yn hapus a diogel ac ychwanegodd nain Jake ei fod bob amser wedi bod eisiau iddo fod y person hyfryd y mae nawr. Gofynnwyd i Jake beth oedd ei eisiau ar gyfer y dyfodol ond roedd yn anodd iawn iddo ddeall y cysyniad.

Oherwydd sylw ei nain, fe wnaethom edrych wedyn ar **broffil un dudalen** Jake. Beth allai Jake yn awr ddweud wrthym am ei ddyhead ar gyfer y dyfodol? Fe wnaethom edrych ar yr hyn yr hoffwn ac a edmygwn amdano a siarad am y math o berson y byddai eisiau bod yn y dyfodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn yr hoffai wneud. Byddai edrych ar yr hyn oedd yn bwysig i Jake hefyd yn help wrth fapio dyheadau'r dyfodol ar ei gyfer.

Fe wnaethom gytuno y byddai Jake eisiau bod yn 'ffrind i bawb', a chael cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amser chwarae prysur gyda chylch cymdeithasol eang. Byddai'n ymgeisydd gwydwr ar gyfer dod yn gyfailli i rai o'r plant iau, a byddai'n sylwi pan oedd rhywun angen help i gymryd rhan. Byddai'n llysgennad da i'r ysgol a gallai groesawu ymwelwyr gyda'i wên barod a chyfeillgar.

Yna trodd y drafodaeth at yr hyn y gallai lleoliad addysgol ei roi i Jake gyda'r cyfleoedd i fod y person y credent y dymunai fod. Cyn y cyfarfod, roedd mam Jake yn ystyried ysgol arbennig fach ar gyfer

plant gydag anawsterau dysgu cymedrol oedd yn rhoi cefnogaeth wych yn neilltuol ar gyfer plant sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig/anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Fodd bynnag, ar ôl meddwl am ddyheadau Jake, teimlem efallai nad dyna oedd y ddarpariaeth orau ar ei gyfer. Trodd y drafodaeth at ddarpariaeth a gefnogid o fewn ysgol brif-ffrwd mawr lle byddai Jake yn rhan o grŵp cymdeithasol llawer ehangach. Gallai gael yr amserau chwarae prysur yr oedd yn hoff ohonynt gyda llawer o ffrindiau i chwarae a gellid rhoi'r pethau sy'n bwysig ar gyfer cefnogi Jake mewn dosbarth llai gydag athro arbenigol.

Ar bapur, awgrymodd cyraeddiadau Jake y byddai darpariaeth addysgol yn seiliedig yn llwyr ar yr hyn oedd yn bwysig **ar gyfer** Jake yn hytrach nag **iddo**. Pe na byddai adolygiad Jake wedi canolbwyntio ar yr unigolyn, gallem yn rhwydd fod wedi colli'r cyfle i ddarparu gosodiad addysgol a fyddai'n ei alluogi yn well i fod y person yr hoffwn ac a edmygwn.

Mwy o fanteision offeryn meddwl dyheadau

Dysgwyr

Mae defnyddio'r offeryn meddwl yma yn dangos i ddysgwyr fod rhai o'r pethau y mae eraill yn eu hoffi a'u hedmygu amdanynt yn nodweddion y dymunant eu cael. Mae'r offeryn meddwl yma'n annog dysgwyr i feddwl nid yn unig pa yrfa yr hoffent ei chael, ond hefyd ba fath o berson yr hoffent fod.

Staff a rhieni

Mae'r offeryn meddwl yma'n galluogi oedolion ym mywyd y dysgwr i nodi cyfleoedd i feithrin cryfderau'r dysgwr a chanfod ffyrdd i'r dysgwyr ddefnyddio eu cryfderau mewn profiad gwaith a rolau yn y dyfodol.

Cyngor da

- Mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng yr hyn mae person eisiau ei wneud a'r math o berson yr hoffent fod. Fodd bynnag, mae cysylltiad agos rhwng y ddau ac mae hefyd angen i chi ddynodi'r cysylltiadau rhyngddynt.

Er enghraifft, os disgrifir dysgwr fel bod yn garedig a'u bod yn dweud fod helpu pobl eraill yn bwysig iddynt, efallai y gall aelodau allweddol o'r staff feithrin y nodwedd a'r dyhead yma. Gallwch ddynodi cyfleoedd i'r dysgwr ofalu am blant iau, pobl hŷn yn y gymuned, neu anifeiliaid, yn dibynnu ar ddiddordebau'r dysgwr.

Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio


Pam defnyddio'r offeryn meddwl beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?

Mae'r offeryn meddwl yma'n ffordd wych i gasglu barn pawb sy'n adnabod y dysgwr am yr hyn sy'n gweithio iddynt yn yr ysgol neu goleg a beth ddylai fod yn wahanol. Gall yr wybodaeth a ysgogwch gyda'r offeryn meddwl yma fod yn ddefnyddiol tu hwnt ar gyfer eich cynllunio canolbwyntio ar unigolion gyda'r dysgwr.

Mae'r dysgwr bob amser yng nghanol eich meddwl, ac mae'r wybodaeth a gasglwch yn rhoi cipolwg o sut mae pethau iddynt yn awr. Mae defnyddio'r dull meddwl yma'n rhoi cyfle gwyh i chi gydnabod beth sy'n gweithio'n dda i'r dysgwr a ffordd glir o amlygu'r hyn sydd angen iddo fod yn wahanol a pha gamau gweithredu y byddwch yn eu cymryd.

Weithiau mae pobl yn meddwl fod 'dim yn gweithio' yn golygu eu bod yn gwneud rhywbeth yn anghywir neu'n methu, ond nid felly. Cynlluniwyd 'dim yn gweithio' i ddynodi'r pethau hynny a ddylai newid, neu y rhoddwyd cynnig arnynt ac nad oeddent yn addas i'r dysgwr.

Sut i ddefnyddio'r offeryn meddwl beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio



Mae'r offeryn meddwl yma sy'n canolbwyntio ar unigolion yn fwyaf effeithiol pan mae pawb yn cydweithio. Gallwch gasglu safbwynt pawb sy'n cymryd rhan a phenderfynu ar weithredu fel grŵp.

Gallwch ddefnyddio'r offeryn meddwl yma gyda grwpiau neu gydag unigolion. Mae'n weithgaredd defnyddiol ar gyfer amser dosbarth i helpu dysgwyr i feddwl am eu bywyd ysgol neu goleg a'u perfformiad.

Os ydych yn defnyddio'r offeryn meddwl yma gyda dysgwr unigol, gofynnwch iddynt pwy maent eisiau i gymryd rhan, e.e. teulu ac aelodau staff. Gall y dysgwr fod angen peth cefnogaeth cyn i chi ddechrau defnyddio eich offeryn meddwl er mwyn meddwl drwy bethau o'u safbwynt nhw.

Cynllunio ar gyfer newid

Gallwch ddefnyddio **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** o fewn dosbarth neu grŵp i nodi a chyfarch materion a chynllunio ar gyfer newid.

Un ffordd o wneud hyn yw roi dau gerdyn coch a dau gerdyn gwyrdd i bob aelod o'r dosbarth. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu dau beth sy'n gweithio am eu dosbarth ar eu cardiau gwyrdd ac yna ddau beth nad ydynt yn gweithio am eu dosbarth ar y cardiau coch. Dywedwch yn benodol wrth dysgwyr am beidio sôn am unigolion eraill ond i ysgrifennu am eu profiad yn ei gyfanrwydd. Yna casglwch yr holl gardiau mewn themâu ac enwi pob thema. Unwaith yr enwyd thema, gallwch feddwl am sut i gyfarch y mater.

Cyfarfodydd agored, onest a chynhyrchiol

Os ydych yn hwyluso cyfarfod, crëwch awyrgylch lle mae pawb yn teimlo y gallant fod yn onest a mynegi sut y teimlant. Gallwch ei chael yn ddefnyddiol dilyn y tair egwyddor negodi greiddiol hyn.

1. Gwneud yn siŵr fod pawb yn cael gwrandawriad, e.e. drwy ddefnyddio cylchoedd.
2. Dechrau gyda thir cyffredin a chofnodi pob safbwynt.
3. Bod yn ddiamod o adeiladol a pheidio cymryd ochrau.

Pan mae'r cyfarfod am ddysgwr, dechreuwch bob amser drwy edrych ar y sefyllfa o safbwynt y dysgwr a chanfod beth maent eisiau i ddigwydd. Os ydych yn gwneud y dyfaliadau gorau ar ran dysgwr, gwiriwch eich tybiaethau bob amser gyda phobl sy'n adnabod y dysgwr yn dda cyn gweithredu. Datblygu camau gweithredu CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol,

synhwyrol) fydd yn cadw'r hyn sy'n gweithio ac yn newid beth sydd ddim yn gweithio.

Enghraifft o beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio yn ymarferol

Mae Jill yn gydlynnydd anghenion ychwanegol mewn ysgol uwchradd brif-ffrwd. Mae'n disgrifio sut y defnyddiant yr offeryn meddwl **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** pan fyddant yn creu **proffiliau un dudalen** ar gyfer dysgwyr.

'Mae'r offeryn **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** yn ffordd ardderchog i gasglu sylwadau a phryderon y dysgwr, rhiant neu ofalwr a'r ysgol, a gallwn ei ddefnyddio fel rhan o broses cyfarfod adolygu.

Yn y cyfarfod esboniwn yr offeryn ac, os yn bosibl, mae'r plentyn yn dechrau gyda'r hyn sy'n gweithio'n dda yn yr ysgol. Gallant ganolbwyntio ar eu hoff wers a beth sy'n gweithio, gan efallai esbonio'r hyn a wnaiff yr athrawon yn y gwersi hyn a deimlant sy'n helpu eu dysgu.

Ceisiwn annog y plentyn i ddweud eu barn a'u galluogi i ffurfio eu syniadau eu hunain heb ymyriad gan y rhieni. Atgoffwn bawb yn y ffordd orau bosibl y byddant yn cael eu cyfle i ddweud eu barn. Ceisiwn beidio ffocysu ar yr hyn nad yw'n gweithio, ond yn hytrach ar yr hyn sydd angen newid fel y gall pethau weithio gystal mewn rhannau eraill o fywyd y plentyn.

Mae'r offeryn **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** yn rhoi ystyriaeth i wahanol safbwyntiau ac mae'r adrannau clir yn canolbwyntio ar y person sy'n siarad. Rydym yn ffurfio cynlluniau gweithredu ac yn dynodi'r person sy'n gyfrifol am bob gweithred, ynghyd â'r dyddiad ar gyfer cwblhau hynny.

Nid y camau gweithredu yw bob amser yr hyn mae angen i'r ysgol ei wneud; gellir gosod perchnogaeth cyfrifoldeb gyda'r dysgwr a rhieni a phobl eraill lle'n briodol. Medrir cyflawni rhai o'r camau gweithredu yn gyflym iawn, sy'n ardderchog gan ei fod yn golygu y bydd gan y dysgwr fwy o ffydd yn y broses.

Gallwn hefyd ddefnyddio'r offeryn meddwl hynny pan adolygwn **broffil un dudalen**, erbyn pryd y bydd pawb yn fwy cyfarwydd gyda fformat y cyfarfod.'

Mae William yn mynychu darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwr sydd ag awtistiaeth, ac mae ganddo leoliad 52 wythnos. Daw'r enghraifft hon o'r hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio o wahanol safbwyntiau o'i adolygiad canolbwyntio ar unigolyn. Mae'r camau gweithredu o hyn yn

cynnwys datblygu cynllun trosglwyddo penodol a manwl i'w gefnogi i symud i fyw â chymorth. Mae'r cynllun trosglwyddo yn rhoi manylion yr hyn oedd yn bwysig i William, y ffordd orau i'w gefnogi, gwybodaeth am y ffordd orau i gefnogi ei gyfathrebu, a sut i'w gynnwys wrth ddewis ei ddarpariaeth newydd a'r staff cefnogaeth fyddai'n gweithio gydag ef.

Beth sy'n gweithio	Beth sydd ddim yn gweithio
William Mae Mam, Dad ac weithiau Alan yn dod i fy ngweld yn rheolaidd ac weithiau'n mynd allan am de gydag un o'r staff cefnogaeth. Rhoi cynnig ar bethau newydd yn arbennig sboncio ar y trampolin, yr wyf yn ei fwynhau'n fawr iawn. Cael gweithgareddau wedi eu cynllunio. Mynd i leoedd rwy'n eu hadnabod yn dda yn arbennig Llandudno gyda Tony. Mae'n fy adnabod yn dda ac yn gwybod beth wyf yn hoffi. Rwy'n mynd ar y trê'n ar ôl yr ysgol y rhan fwyaf o ddyddiau lau. Gweithio ar y cyfrifiadur yn yr ysgol.	William Pan fyddaf i ddim yn gwybod na'n deall beth sy'n debyg o ddigwydd nesaf. Peidio gwybod beth mae pobl yn ei ddisgwyl gen i. Bod mewn amgylchedd nad wyf yn gyfarwydd ag ef ac yn rhy brysur.
Teulu Cael cyswllt rheolaidd a mynediad i'r ysgol. Galwadau ffôn adref i'n diweddarau ar y gweithgareddau y bu William yn eu gwneud a'r triapiau y bu arnynt. Mewngofnodi rhieni ar wefan yr ysgol fel y gallwn weld beth y bu William yn ei wneud.	Teulu Rydym yn hapus iawn gyda'r gefnogaeth a gaiff William ar hyn o bryd, ond rydym yn awyddus bod hyn yn cael ei drosglwyddo i'r trefniant byw â chymorth ar gyfer y dyfodol.

Awdurdod lleol Mae'r cyswllt presennol yn gweithio'n dda yn arbennig pan mae rhieni William yn ymweld ag ef yn yr ysgol. Cynyddwyd mynediad cymunedol William yn yr ysgol gyda gweithgareddau cymunedol yn awr yn amrywiol iawn ac ystyrlon.	Awdurdod lleol Mae William yn cael anhawster gyda'i arferion glendid personol pan aiff ar ymweliadau teulu. Pan nad yw William eisiau mynd i rywle bydd yn eistedd ar y llawr ac yn gwrthod symud.
Ysgol Bod â chynllun gweithgaredd strwythuredig. Cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd. Mae staff yn gwybod y ffordd orau i gefnogi'r holl weithgareddau a sut i gadw William yn ddiogel. Mae William yn gweld ei deulu ar ymweliadau rheolaidd. Perthynas dda rhwng staff cefnogaeth a theulu. Bod gyda dysgwyr eraill sydd â diddordebau tebyg i William.	Ysgol Nid yw William yn hoffi bod ar ben ei hun am gyfnodau hir. Gorfod treulio cyfnodau hirach wrth ei ddesg. Mynd i leoedd gyda gormod o sŵn a gormod o bobl.

Mwy o fanteision beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio

Dysgwyr

Gall dysgwyr ddefnyddio offeryn meddwl **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** wrth ochr eu **proffil un dudalen** i gytuno ar gamau gweithredu. Gall hyn weithio'n dda, er enghraifft, mewn amser unigol gydag athro neu ddarlithydd.

Lle mae gan ddysgwr ddarpariaeth ychwanegol yn yr ysgol, gallwch asesu pa mor dda y mae'n eu cefnogi drwy ddefnyddio'r offeryn meddwl yma mewn adolygiadau cynllun addysg unigol bob tymor. Gallwch ddefnyddio'r offeryn meddwl yma i sicrhau dealltwriaeth

o safbwynt dysgwr os ydynt yn bryderus yn yr ysgol neu goleg, a datblygu cynllun gyda tharged i'w cefnogi.

Gallwch ganfod yr hyn sydd angen ei roi ar waith wrth i ddysgwyr drosglwyddo o un dosbarth neu gam allweddol i un arall, o un ysgol i un arall, neu o'r ysgol i goleg.

Rhieni

Defnyddiwch yr offeryn meddwl fel ffordd i ymgynghori gyda rhieni am yr hyn y credant sy'n gweithio a ddim yn gweithio ar hyn o bryd, a chynllunio camau gweithredu gyda nhw i gyfarch hyn.

Staff ac ysgol neu goleg

Awgrymu bod y cyngor ysgol neu fyfyrwr yn defnyddio'r offeryn meddwl i fyfyrion ar faterion a chasglu sylwadau dysgwyr, e.e. ar y cynllun datblygu ysgol. Gall y staff ddod at ei gilydd a defnyddio'r offeryn meddwl ar gyfer hyn hefyd. Mae'n ffordd ddefnyddiol i fyfyrion ar genhadaeth a gwerthoedd eich sefydliad, a sut y byddwch yn eu rhoi ar waith.

Gallwch ddefnyddio'r offeryn meddwl yma mewn cyfarfodydd staff i edrych ar y cyd ac o wahanol safbwyntiau ar yr hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio am sefyllfa neu fater. Mae hefyd yn offeryn meddwl defnyddiol mewn gwerthusiadau un i un.

Cyngor da

- Os ydych yn defnyddio'r offeryn meddwl yma gyda thîm staff, gwnewch yn siŵr fod cynifer ag sy'n bosibl o aelodau'r tîm fel y clywir safbwyntiau eraill. Mae angen i chi feddwl sut i gael safbwyntiau pobl eraill, neu sut y byddwch yn gwirio eich dyfaliadau gorau ar eu safbwyntiau gyda nhw.
- Dynodi beth yw'r pethau pwysicaf nad ydynt yn gweithio. Dechreuwch drwy ddatblygu cynllun gweithredu gyda'r rhain fel y gallwch gyfarch y meysydd blaenoriaeth uchaf yn gyntaf. Gallech ofyn i bobl bleidleisio am eu blaenoriaethau.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn edrych ar y pethau sy'n gweithio sydd angen gweithredu i wneud hyn yn digwydd.
- Cofio y gall offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion eich helpu i newid yr hyn nad yw'n gweithio.

Siartiau cyfathrebu

Pam defnyddio siartiau cyfathrebu?

Mae pawb ohonom yn cyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mae **siartiau cyfathrebu** yn ddull syml ond grymus i ganfod a chofnodi sut mae dysgwr yn cyfathrebu drwy eu gweithredoedd yn ogystal â'u geiriau.

Drwy ddefnyddio'r offeryn meddwl yma gallwch wrando ar ddysgwyr, sut bynnag maent yn cyfathrebu a bydd eich strategaethau rheoli yn llawer mwy llwyddiannus oherwydd y gallwch ganolbwyntio ar newid y pethau cywir p'un ai yw hynny'n cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd neu ganfyddiad dysgwr o hynny.

Gallwch hefyd sicrhau fod pawb sy'n gweithio gyda dysgwr yn dod i'w hadnabod ac yn ymateb mewn modd cyson i'w cyfathrebu.

Gallwch ddefnyddio **siart cyfathrebu** i'ch helpu i ddeall sut mae unrhyw ddysgwr yn cyfathrebu. Er enghraifft, gallai fod yn ddefnyddiol gwybod pan fo un plentyn yn eistedd yn dawel yn y gornel yn edrych ar lyfr, maent yn hapus, ond mae un arall yn teimlo wedi ei adael allan. Ar gyfer person ifanc sy'n symud i'r coleg, byddai'n ddefnyddiol i staff ddod i'w hadnabod a gallu gwybod, er enghraifft, pan maent yn teimlo'n fwyaf pryderus neu rwystredig, a'r ffyrdd gorau i'w cefnogi gyda hyn.

Yn fwyaf aml, mae staff yn defnyddio **siartiau cyfathrebu** i'w helpu i ddeall beth mae dysgwr sy'n ei chael yn anodd cyfathrebu'n llafar yn ei ddweud wrthynt. Mae dau fath o **siart cyfathrebu**: 'Beth ydw i'n ei gyfathrebu i chi?' a 'Beth ydych chi'n ei gyfathrebu i fi?' Mae'r cyntaf yn ddisgrifiad glir a grymus o sut mae'r dysgwr yn cyfathrebu. Yn yr ail, yn hytrach na chofnodi beth mae'r dysgwr yn ei wneud, cofnodwn yr hyn y ceisiwn ei gyfathrebu iddynt, ac yna beth ydym yn eu hannog i wneud.

Sut i ddefnyddio siartiau cyfathrebu

Yn gyntaf mae angen i chi wybod am y bobl sydd bwysicaf i'r dysgwr, gan y bydd ganddyn nhw wybodaeth am y ffordd y mae'r dysgwr yn cyfathrebu orau. Os oes **cylch perthynas** gan y dysgwr, gallwch edrych arno i benderfynu pwy i'w gynnwys wrth ddatblygu eu **siart cyfathrebu**.

Defnyddio siart cyfathrebu 'Beth ydw i'n ei gyfathrebu i chi?'

Ar y **siart cyfathrebu** cyntaf, dechreuwch gyda'r ail a'r drydedd golofn. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ail a'r drydedd golofn ychwanegwch gwybodaeth i'r golofn gyntaf a'r bedwaredd golofn.

Ar yr amser yma: Mae hyn yn disgrifio'r cyd-destun – beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd neu sydd newydd ddigwydd ('y sbardun').

Pan mae hyn yn digwydd: Mae hyn yn disgrifio ymddygiad y dysgwr – yr hyn y gall pobl eraill ei weld neu ei glywed.

Rydyn ni'n meddwl fod hyn yn golygu: Mae hyn yn disgrifio beth y credwch fod yr ymddygiad yn ei olygu a'r hyn y gall dysgwr fod yn ei feddwl neu deimlo.

Mae angen i ni wneud hyn: Mae hyn yn disgrifio'r hyn y dylai eraill ei wneud neu beidio ei wneud mewn ymateb.

<i>Ar yr amser yma</i>	<i>Pan mae hyn yn digwydd</i>	<i>Rydyn ni'n meddwl fod hyn yn golygu</i>	<i>Mae angen i ni wneud hyn</i>

Beth ddylem ni wneud wneud nesaf?

Defnyddio siart cyfathrebu 'Beth ydych chi'n ei gyfathrebu i fi?'

Ar yr ail **siart cyfathrebu**, gweithiwch o'r chwith i'r dde.

Rydyn ni eisiau dweud: Yma disgrifiwch yr hyn yr ydych eisiau dweud wrth y dysgwr amdano, e.e. fod gweithgaredd yn dod i ben.

I wneud hyn: Yma disgrifiwch **sut** y dywedwch wrth y dysgwr. Er enghraifft, efallai eich bod yn dweud wrthynt fod y gweithgaredd yn dod i ben a'r hyn y byddwch yn ei wneud nesaf.

Gyda help a chefnogaeth: Mae'r elfen yma'n disgrifio y cymhorthion cyfathrebu eraill y gallwch eu defnyddio i gefnogi dealltwriaeth y dysgwr, megis cardiau goleuadau traffig neu symbolau widget.

<i>Rydyn ni eisiau dweud</i>	<i>I wneud hyn byddwn yn</i>	<i>Cael help/ cefnogaeth gan</i>

Beth ddylem ni wneud wneud nesaf?

Dyma rai enghreifftiau o siart cyfathrebu William.

Beth ydyn ni eisiau ei ddweud wrth William?	I wneud hyn	Cefnogir gan
Ei bod yn amser bwyd.	Gwneud yn siŵr fod William yn edrych arnoch a dweud y gair 'brecwast', 'cinio' neu 'swper'.	Dangos ei blât i William.
Ei bod yn amser mynd.	Gwneud yn siŵr fod William yn edrych arnoch a dweud y gair 'mynd'.	Dangos y symbol golau traffig gwyrdd i William.
Ei bod yn amser cael bath.	Gwneud yn siŵr fod William yn edrych arnoch a dweud y gair 'bath'.	Cynorthwyo William i roi ei wn gwisgo amdano.
Bod angen iddo ddewis gweithgaredd.	Gwneud yn siŵr fod William yn edrych arnoch a dweud y gair 'dewis'.	Dangos i William beth y gall ddewis o'u plith, heb roi mwy na dau ddewis. Gallwch ddefnyddio eitemau cyfeirio neu luniau i wneud hyn.

Enghreifftiau o siartiau cyfathrebu ar waith

Y Ganolfan Asesu

Mae'r Ganolfan Asesu yn Wrecsam yn ganolfan adnoddau arbenigol iawn sy'n darparu lleoliadau ar gyfer plant 3 i 7 oed. Mae'r ganolfan yn asesu anghenion ychwanegol dysgwyr tra'n datblygu eu sgiliau dysgu drwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gwahaniaethol addas.

Daeth **siartiau cyfathrebu** yn rhan allweddol o'r broses asesu gyda'r plant a'u teuloeidd. Mae gweithwyr allweddol yn canfod y ffordd orau i ymateb i wahanol ddulliau cyfathrebu plentyn. Mae hyn yn dechrau drwy ofyn i rieni beth y credant mae eu plentyn yn ei gyfathrebu pan welant rai mathau arbennig o ymddygiad a'r ffordd orau o ymateb.

Gall **siartiau cyfathrebu** fod yn adnodd hollbwysig ar gyfer staff addysgu i'w helpu i gefnogi'r plant y gweithiant gyda nhw; gellir osgoi rhwystredigaeth a phlant wedi cymryd atynt os yw'r oedolyn yn gwybod beth maent yn ei gyfathrebu a'r ffordd orau i ymateb i hyn. Caiff y siartiau eu rhannu gyda'r tîm ehangach fel bod unrhyw oedolyn yn dysgu o wybodaeth a dealltwriaeth fanwl y rhai sy'n adnabod y plentyn yn dda.

Siart cyfathrebu Max

<i>Ar yr amser yma</i>	<i>Pan mae hyn yn digwydd</i>	<i>Rydyn ni'n meddwl fod hyn yn golygu</i>	<i>Mae angen i ni wneud hyn</i>
Amser chwarae	Mae'n edrych yn ôl ar yr oedolyn dro ar ôl tro	Nid yw eisiau chwarae yn annibynnol	Cydio yn ei law os nad yw'n gofyn fel arall. Defnyddio cardiau i'w alluogi i ddangos os yw'n hapus neu'n drist gyda'r hyn sy'n digwydd
Amser gweithgredd	Ailadrodd ymadroddion o raglenni teledu neu ymadroddion oedolion	Mae eisiau cymdeithasu gyda'r person	Annog cymdeithasu drwy fodelu mewn modd priodol
Amser cinio	Nid yw ei u i un yno ac mae'n edrych am oedolyn arall neu'n dal ei law allan atynt	Mae angen cefnogaeth oedolyn oherwydd ei fod yn teimlo'n bryderus	Gwneud yn siwr ei fod yn gwybod pwy yw'r oedolyn fydd yn gofalu amdano
Newidiadau yn y drefn arferol	Gofyn yn gyson ble mae'n mynd	Gormod o ddewis, mae'n ei chael yn anodd penderfynu ble i fynd	Rhoi bwrdd gweithgaredd fel y gall ddewis rhwng dau weithgaredd
Darpariaeth barhaus	Rhedeg o amgylch ar garped wedi cyffroi	Dim yn gwybod beth a ddisgwylir ganddo	Canfod lle iddo eistedd yn ymyl oedolyn
Amser cinio yn y neuadd	Crwydro o amgylch yn edrych yn ansicr	Pryderu am lle mae'n mynd	Sicrhau y caiff wybod ymlaen llaw gydag amserlen mewn darluniau am unrhyw newidiadau yn y drefn arferol
Unrhyw amser	Dawnsio yn y fan a'r lle	Mae angen mynd i'r toiled	Gwneud yn siŵr nad yw drws y toiled wedi cau
Amser toiled ac amgylchedd a allai fod yn newydd	Ailadrodd 'dim sychwyr dwylo'	Mae ganddo ofn mawr o sychwyr dwylo	Troi sychwyr dwylo i ffwrdd yn llwyr yn y wal, dangos hyn iddo a gadael iddo edrych ar blant eraill yn mynd i mewn a cheisio eu defnyddio

Mwy o fanteision siartiau cyfathrebu

Dysgwyr

Caiff ymddygiad dysgwyr ei ddeall fel cyfathrebu a gall staff eu cefnogi'n llawer mwy effeithiol. Mae **siartiau cyfathrebu** yn gadael i ddysgwyr rannu'r hyn sy'n gweithio orau iddyn nhw pan maent yn teimlo'n anhapus neu'n ddig. Gall staff newydd a staff cyflenwi ddefnyddio'r wybodaeth ar unwaith i roi cefnogaeth gyda dirnadaeth a dealltwriaeth. Gall dysgwyr eraill hefyd ddefnyddio'r wybodaeth ar y **siart cyfathrebu** i adeiladu perthynas well, yn ogystal â deall fod pawb yn wahanol ac yn cyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Rhieni

Gall rhieni rannu'r ddirnadaeth sydd ganddynt am strategaeth cyfathrebu eu plentyn a gwybod y cânt eu deall a'u rhannu.

Staff ac ysgol neu goleg

Mae'r diwrnod yn llyfnach: mae staff yn fwy ymwybodol pan fo dysgwyr yn teimlo'n bryderus neu'n anhapus, a gallant ymateb yn brydlon ac mewn modd priodol.

Cyngor da

- Cynnwys dyddiad datblygu'r **siart cyfathrebu** a phryd y byddwch yn ei adolygu a'i ddiweddarau.
- Lle mae pobl yn ansicr neu'n anghytuno, meddyliwch sut y gallwch wirio'r wybodaeth, e.e. drwy defnyddio **logiau dysgu**.
- Bod mor glir a phenodol ag sydd modd – dylai cydweithwyr wybod yn union sut y dylent ymateb a sut i gyfathrebu gyda'r dysgwr.
- Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r **siart cyfathrebu**, edrych os oes gwybodaeth i'w hychwanegu at **broffil un dudalen** y dysgwr.
- Gall llenwi'r **siart cyfathrebu** roi gwybodaeth i chi am y bobl orau i gefnogi'r dysgwr.
- Gwneud yn siŵr fod gennych ffordd i bawb sy'n ymwneud â bywyd y dysgwr i weld a defnyddio'r **siart cyfathrebu**.
- Ychwanegu mwy o wybodaeth at y **siart cyfathrebu** wrth i chi ddod i adnabod y dysgwr yn well a sylwi ar fathau o ymddygiad na wnaethoch eu gweld yn wreiddiol.

Proffiliau a chytundebau gwneud penderfyniadau

Pam defnyddio'r offerynnau meddwl gwneud penderfyniadau?

Mae'r offeryn meddwl **gwneud penderfyniadau** yn gadael i chi ddeall a chofnodi'r ffyrdd gorau i gefnogi dysgwr fel y gwnânt benderfyniadau. Mae'n creu darlun clir o sut mae dysgwr yn gwneud penderfyniadau, yr ystod penderfyniadau a wnânt a pha wybodaeth a chefnogaeth maent ei angen. Bydd hyn yn sicrhau nad ydych yn tangynrychioli na gorgynrychioli'r dysgwr.

Sut i ddefnyddio'r offerynnau meddwl gwneud penderfyniadau

Mae dau ran i'r offeryn meddwl **gwneud penderfyniadau**: y **proffil gwneud penderfyniadau**, sy'n rhannu dewisiadau'r dysgwr mewn gwneud penderfyniadau a'r **cytundeb gwneud penderfyniadau**, sy'n nodi'r penderfyniadau pwysig y mae angen i'r dysgwr eu gwneud a sut maent eisiau cael eu cefnogi wrth iddynt eu gwneud.

Gallwch gasglu'r wybodaeth rydych ei hangen ar gyfer yr offerynnau meddwl hyn drwy sgysiau a thrwy ddeall cyfathrebiadau'r dysgwr.

Proffil gwneud penderfyniadau

<i>Sut mae Thomas yn hoffi cael yr wybodaeth</i>	<i>Sut i gyflwyno'r dewis i fi</i>	<i>Ffyrdd y gallwch helpu i ddeall</i>	<i>Pryd sy'n amser da i wneud penderfyniad</i>	<i>Pryd sydd ddiim yn amser da gofyn i mi wneud penderfyniad</i>

Dechreuwch gyda'ch proffil **gwneud penderfyniadau**. Edrychwch ar yr wybodaeth sydd gennych am y dysgwr, e.e. ar eu **proffil un dudalen a siart cyfathrebu**. Beth maent yn ei ddweud wrthyhch am yr amserau a'r ffyrdd gorau i gefnogi'r dysgwr i wneud penderfyniadau?

Siaradwch gyda'r dysgwr a'r rhai sy'n eu hadnabod yn dda i wirio ac ychwanegu at yr wybodaeth yma. Gall helpu i feddwl yn ôl at benderfyniad pwysig a'r gefnogaeth a gafodd y dysgwr. Beth oedd yn gweithio a ddim yn gweithio iddyn nhw wrth iddynt wneud y penderfyniad yma.

Cytundeb gwneud penderfyniadau

<i>Penderfyniadau pwysig yn fy mywyd</i>	<i>Sut rwyf eisiau cymryd rhan</i>	<i>Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol?</i>

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r proffil, symudwch ymlaen i'r **cytundeb gwneud penderfyniadau**. Eto, edrychwch ar **broffil un dudalen a siart cyfathrebu** y dysgwr ac edrychwch hefyd ar yr wybodaeth a gasglwyd yn defnyddio **diwrnod da – diwrnod gwael**; bydd yr offerynnau meddwl yma yn eich helpu chi a'r dysgwr i feddwl gyda'ch gilydd am y penderfyniadau pwysig ym mywyd y dysgwr.

Unwaith y byddwch wedi rhestru'r penderfyniadau, edrychwch ar y broses ar gyfer gwneud y penderfyniad hwnnw a'r gefnogaeth mae'r dysgwr ei angen i fod yn y canol wrth wneud penderfyniadau.

Enghreifftiau o ddefnyddio'r offeryn meddwl gwneud penderfyniadau

Cytundeb gwneud penderfyniadau Thomas

Penderfyniadau ym mywyd Thomas	Sut i gynnwys Thomas a phwy all helpu	Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol
Beth fydd Thomas yn ei wneud ar ôl ymadael â'r ysgol.	Deall beth sy'n bwysig i Thomas, y pethau mae'n mwynhau eu gwneud a'r mathau o bobl mae'n eu hoffi o'i gwmpas. Gall mam, tad, athro a chynorthwydd addysgu Thomas helpu gyda'r wybodaeth yma. Mynd â Thomas i wahanol weithgareddau yn ystod y dydd, darparwyr, colegau a gweithgareddau cymunedol. Gall gweithiwr cymorth a chynghorydd gyrfaoedd Thomas helpu. Tynnu lluniau o Thomas yn gwneud gwahanol bethau. Pwy bynnag sy'n ei gefnogi yn yr ymweliadau hyn i dynnu lluniau. Defnyddio logiau dysgu i fonitro sut mae'n ymateb yn y gwahanol leoedd. Person sy'n ei gefnogi yn yr ymweliadau i fonitro. Defnyddio Matiau Siarad gyda Thomas i ganfod beth oedd yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Gwyddom mai'r peth gorau yw gwneud hyn gyda gwahanol bobl mewn gwahanol leoedd i gael gwybodaeth gyson gan Thomas. Defnyddio'r wybodaeth yma i ddatblygu 'wythnos berffaith' i'w chyflwyno i'r panel.	Thomas fydd yn penderfynu beth hoffai wneud, ond y panel cyllido fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol am yr hyn a gaiff ei ariannu ai peidio.

Proffil gwneud penderfyniadau Thomas

Sut mae Thomas yn hoffi cael yr wybodaeth	Sut i gyflwyno'r dewis i Thomas	Ffyrdd y gallwch helpu i ddeall	Pryd sy'n amser da i ofyn i Thomas i wneud penderfyniad	Pryd sydd ddim yn amser da gofyn i Thomas wneud penderfyniad
Siarad gyda Thomas i roi'r wybodaeth iddo mae ei hangen, gan ddefnyddio ffotograffau a symbolau widget.	Defnyddio ffotograffau clir a Matiau Siarad fel y gall Thomas roi darlun o'r peth mae'n ei ddewis dan yr wyneb hapus.	Rhoi amser i Thomas brosesu'r hyn yr ydych yn gofyn iddo ei ddewis. Profi nad yw Thomas yn rhoi'r ateb y mae'n credu eich bod ei eisiau drwy ailadrodd y Mat Siarad gyda phobl eraill mewn gwahanol leoedd.	Yn y prynhawn, ar ôl cinio. Pan fyddwch wedi dweud wrth Thomas mai'r peth nesaf y byddwch yn ei wneud yw gofyn iddo ddewis. Pan fydd mewn amgylchedd tawel heb ddim i dynnu ei sylw.	Pan fydd Thomas dan bwysau – bydd yn tapio ei law ar ei gadair olwyn os yw'n teimlo'n bryderus. Mae Thomas angen amser i gynhesu fyny yn y bore. Os oes rhywun newydd yn yr ystafell, bydd eisiau cwrdd â'r person hynny ac ni fydd yn canolbwyntio ar beth ydych eisiau iddo ei wneud.

Mwy o fanteision yr offerynnau meddwl gwneud penderfyniadau

Dysgwyr

Gall dysgwyr wneud penderfyniadau gwybodus amdanynt eu hunain, gyda chefnogaeth. Gall dysgwyr a staff ddefnyddio'r offerynnau i feddwl sut i gynyddu eu gallu i wneud penderfyniadau a chynyddu eu cyfrifoldeb.

Rhieni

Pan mae rhieni yn ymwneud â gwneud penderfyniadau dysgwr (e.e. rhieni ac athrawon), mae'r offeryn meddwl yma'n rhoi eglurdeb am bwy sy'n cymryd rhan wrth wneud penderfyniad a sut y gwneir y penderfyniad terfynol.

Staff ac ysgol

Gall yr offeryn meddwl yma helpu ysgolion weithio allan pa benderfyniadau ddylai gael eu rhannu gyda rhieni, dysgwyr a llywodraethwyr, a'r prosesau y byddant yn eu defnyddio. Mae timau staff yn defnyddio'r offeryn meddwl yma i egluro pa benderfyniadau y gallant eu gwneud: beth sydd o fewn eu rheolaeth? Mae timau staff sydd angen iddynt wneud penderfyniadau'n defnyddio'r offeryn yma i egluro sut y gwneir y penderfyniadau. Er enghraifft, a yw'r penderfyniad yma i gael ei gwneud gan gonsensws, pleidlais fwyafrifol neu a yw'n fater i bennaeth yr ysgol ei hunan?

Cyngor da

Pan fyddwch yn creu **cytundeb gwneud penderfyniadau** dylech:

- ddefnyddio datganiadau cadarnhaol cryf (nid 'fel arfer' neu 'weithiau')
- defnyddio iaith glir, bob dydd heb unrhyw jargon
- cynnwys manylion sut yr hoffai'r dysgwr i'r wybodaeth gael ei chyflwyno iddynt, e.e. sain neu luniau
- ychwanegu dyddiad cwblhau'r **cytundeb gwneud penderfyniadau** a phwy gyfrannodd
- ychwanegu unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd a gan bwy
- gwneud yn siŵr fod dyddiad adolygu a bod rhywun yn gyfrifol am hyn
- cynnwys manylion am sut mae dysgwr yn gwneud penderfyniadau pan fyddant dan straen, ddim yn teimlo'n dda neu mewn poen.


Cylch perthynas

Pam defnyddio'r offeryn meddwl cylch perthynas?

Mae **cylch perthynas** yn grynodedb weledol o'r bobl bwysig ym mywyd dysgwr. Mae'n dangos nifer, gwasgariad a dyfnder y perthnasoedd ac mae'n ffordd ardderchog i'ch helpu chi a'r dysgwr i feddwl sut i gryfhau perthnasoedd presennol a datblygu rhai newydd.

Mae'r **cylch perthynas** yn ddefnyddiol ynddo'i hun ac yn offeryn allweddol pan fyddwch yn casglu gwybodaeth ar gyfer **proffil un dudalen** dysgwr.

Sut i ddefnyddio offeryn meddwl cylch perthynas



I ddatblygu **cylch perthynas**, dechreuwch drwy ysgrifennu enw'r dysgwr yng nghanol y diagram. Gall dysgwyr ddefnyddio ffotograffau neu dynnu lluniau hefyd. Yna rhwch y bobl y maent yn eu hadnabod o'u hamgylch, gyda'r bobl bwysicaf agosaf at y canol.

Gallwch roi pobl mewn un o bedwar categori:

- teulu
- ysgol, coleg neu yn ystod y dydd
- ffrindiau
- cymhorthwyr a gaiff eu talu.

Pan fyddwch yn helpu rhywun i lenwi eu **cylch perthynas**, gallwch ei chael yn ddefnyddiol defnyddio prociau i'w helpu i ymchwilio eu perthnasoedd, megis:

- ffotograffau
- safleoedd rhwydweithio cymdeithasol
- ffotograffau dosbarth
- llyfrau cyfeiriadau.

Os ydych yn cefnogi rhywun nad yw'n defnyddio geiriau i siarad, defnyddiwch y dulliau cyfathrebu mwyaf addas ar eu cyfer, e.e. lluniau a gwrthrychau.

Teulu

Gall teulu gynnwys unrhyw berthnasau sy'n rhan o fywyd rhywun. Er enghraifft, gallai hyn amrywio o Mam y maent yn ei gweld bob dydd i Wncwl Joe nad ydynt ond yn ei weld unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i chi hefyd gydnabod y ffaith nad yw pob teulu yn agos. Mae safbwynt a sefyllfa pob person yn unigryw.

Ysgol, coleg, gwaith neu yn ystod y dydd

Ystyriwch lle mae'r dysgwr yn treulio'r dydd. Gyda phwy maen nhw'n treulio amser a pha mor dda mae'r bobl yma'n eu hadnabod? A oes unrhyw bobl y byddai'r dysgwr yn hoffi eu hadnabod yn well?

Ffrindiau


Mae'r categori yma'n cynnwys unrhyw un y mae'r dysgwr yn ei adnabod ac â pherthynas a nhw. Gallai hyn gynnwys pobl nad ydynt yn eu hadnabod yn dda ond y gallant eu gweld neu sgwrsio gyda nhw'n rheolaidd, fel y ddynes sy'n gweithio yn swyddfa'r post neu'r dyn sy'n gweini yn ffreutur yr ysgol. Gallai gynnwys pobl yr oeddent yn eu hadnabod yn y gorffennol ond y maent wedi colli cysylltiad â nhw.

Cymhorthwyr sy'n derbyn tâl

Mae cymhorthwyr sy'n derbyn tâl yn cynnwys unrhyw un sy'n derbyn tâl am fod ym mywyd rhywun megis gweithiwr cymorth, meddyg teulu neu yrrwr tacsî. Ar wefan Think and Plan (yn www.thinkandplan.com) mae fersiwn arall o'r offeryn meddwl yma sy'n gadael i chi fapio perthnasoedd mewn colofnau yn lle cylchoedd.

Enghreifftiau o gylchoedd perthynas ar waith

Dyma **gylch perthynas** William. Cafodd ei ddatblygu fel rhan o'i gynllunio trosglwyddo i edrych pwy oedd yn bwysig iddo a gyda phwy y gallai fod eisiau cadw mewn cysylltiad unwaith yr oedd wedi symud ymlaen o'r coleg. Roedd hyn yn galluogi tîm William hefyd i ddynodi sgiliau a nodweddion y staff cefnogaeth oedd yn bwysig iddo, er mwyn meddwl am y pethau hyn wrth recriwtio ar gyfer staff newydd pan oedd yn symud i'w leoliad byw â chymorth.



Mwy o fanteision cylchoedd perthynas

Dysgwyr

Os yw dysgwyr angen cefnogaeth, gall eu **cylch perthynas** ddynodi pwy allai gynnig hynny.

Pan fyddwch yn paru dysgwr gyda chefnogaeth, mae'r offeryn meddwl yma'n adnodd hanfodol wrth edrych ar y perthnasoedd sy'n gweithio'n dda a nodweddion y bobl y maent yn tynnu ymlaen orau gyda nhw. Gallwch ddefnyddio'r offeryn yma gyda'ch gilydd i ddechrau datblygu cylch o ffrindiau.

Rhieni

Gall yr offeryn meddwl yma helpu rhieni i ddeall rhwydwaith eu plentyn o gyfeillgarwch a pherthnasoedd, a gweld sut y gallant ei gefnogi.

Gall grwpiau o rieni ddefnyddio'r offeryn yma i feddwl am sut i wella a datblygu perthnasoedd o fewn yr ysgol fel rhan o'r cynllun datblygu ysgol.

Staff ac ysgol neu goleg

Gall staff a llywodraethwyr (ar wahân neu gyda'i gilydd) feddwl am bobl a pherthnasoedd sy'n bwysig i'r ysgol neu goleg – e.e. teuluoedd, cymdeithas rhieni ac athrawon, cyflogwyr lleol, arweinwyr cymunedol lleol, cyflenwyr, gweithwyr proffesiynol a thimau cymunedol – a chreu map perthynas sy'n eu helpu i weld sut i wella neu ymestyn y perthnasoedd hyn.

Gall llywodraethwyr ddefnyddio'r offeryn i weld pwy sy'n bwysig i'r ysgol neu goleg; gallant fapio'r rhanddeiliaid i hysbysu ei gynllun datblygu. Gall **cylch perthynas** yr ysgol neu goleg ei gwneud yn glir gyda phwy y mae'r ysgol neu goleg yn rhannu llwyddiannau a heriau.

Cyngor da

- Cynnwys dyddiad creu'r **cylch perthynas**.
- Bod yn glir am bwy yw pob person: rhoi eu henw a nodi eu perthynas gyda'r dysgwr.
- Os ydych yn cynnwys pobl na fu ym mywyd rhywun ers tipyn, yna nodwch pa mor hir na fuont o gwmpas.
- Meddwl am y rôl y gallai pob person ar y **cylch perthynas** ei chael wrth gefnogi'r dysgwr i gyflawni'r bywyd a ddymunant.
- Os mai ychydig iawn o bobl sydd gan y dysgwr yn eu bywyd, ystyried beth y byddai'n ei gymryd i wneud cysylltiadau a chyfeillgarwch, neu ddyfnhau perthnasoedd presennol. Gosod nodau penodol i symud tuag at hyn os mai dyna beth mae'r dysgwr ei eisiau.

Logiau dysgu

Pam defnyddio offeryn meddwl log dysgu?

Mae **log dysgu** yn eich helpu i ddal i wella'r ffordd y cyflwynwch ddysgu a chefnogaeth i ddysgwr unigol. Drwy nodi gwybodaeth ac arsylwadau bob dydd, adeiladwch ddarlun o'r hyn ddylai aros fel y mae a'r hyn ddylai newid.

Gall y **log dysgu** helpu pobl i ddeall y ffordd orau i gefnogi dysgwr bob dydd ac felly hybu cyfleoedd y dysgwr i ddysgu'n effeithiol a gwneud y cynnydd gorau posibl.

Gallwch ddefnyddio'r **log dysgu** i greu crynodeb o'r holl wybodaeth dysgu am un plentyn, yn cynnwys yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwr. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn wrth i chi ddatblygu neu adolygu eu **proffil un dudalen**. Mae gan **log dysgu** yr un rôl â chofnodion dyddiol eraill, yn cynnwys y llyfr cartref-ysgol, felly gallech ystyried ei ddefnyddio yn lle.

Sut i ddefnyddio offeryn meddwl log dysgu

Dyddiad	Beth wnaeth y person?	Pwy oedd yno?	Beth wnaethoch chi ddysgu am yr hyn a weithiodd yn dda?	Beth wnaethoch chi ddysgu nad oedd yn gweithio?
Beth sydd ei angen i ni ddal i'w wneud, a beth sydd angen i ni ei newid?				

Mae'r penawdau ar y **log dysgu** yn ei gwneud yn rhwydd nodi eich arsylwadau am bob digwyddiad yn niwrnod y dysgwr. Mae'n bwysig cofnodi'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu am sefyllfa yn ogystal â disgrifio'r digwyddiadau neu ymddygiad y dysgwr.

Wrth i chi lenwi'r **log dysgu**, meddyliwch am yr hyn a aeth yn dda a'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu ar gyfer y tro nesaf. Meddyliwch hefyd beth nad aeth yn dda a'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu am hyn ar gyfer y tro nesaf.

Enghreifftiau o logiau dysgu ar waith

Logiau dysgu mewn canolfan blynyddoedd cynnar

Mae Canolfan Blynyddoedd Cynnar Wrecsam yn darparu ar gyfer plant rhwng tair a phedair oed. Mae'r ddarpariaeth Feithrin a Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaethau adnodd, yn rhoi lleoedd asesu ar gyfer plant gydag anghenion dysgu a ddynodwyd. Mae Rachel Costello yn athrawes ac yn un o'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n disgrifio sut y dechreuodd ddefnyddio'r **log dysgu** i gasglu gwybodaeth allweddol am fachgen bach, Rhys, sy'n mynychu'r lleoliad bob bore.

'Mae lleferydd Rhys wedi oedi ac mae'n bennaf yn defnyddio arwyddion, synnau ac ymddygiad i gyfathrebu'r pethau mae'n ei hoffi, yn eu drwgghoffi a'u hanghenion. Roedd y **log dysgu** yn lle gwyhych i ddechrau casglu pwyntiau dysgu allweddol gan staff am yr hyn roedd ymddygiad Rhys yn ei ddweud wrthynt, beth oedd yn gweithio'n dda iddo a beth a ddylai newid.

Gall casglu dysgu o brofiadau fod yn sylfaen i'r hyn mae angen i ni wneud i gefnogi plentyn yn y ffordd orau. Mae hyn yn fanteisiol yn ychydig wythnosau cyntaf tymor newydd pan fydd plentyn yn newydd i'r lleoliad a'r staff yn dod i'w hadnabod a phenderfynu pa gefnogaeth i'w defnyddio. Fodd bynnag, rydym yn dysgu'n gyson am bobl wrth iddynt newid, datblygu ac wynebu profiadau newydd, felly mae'r **log dysgu** yn ddefnyddiol i'w gael fel dogfen waith gyfredol.

Yng Nghanolfan Blynyddoedd Cynnar Wrecsam, rydym yn cael y **logiau dysgu** a'r **siartiau cyfathrebu** yn werthfawr tu hwnt. Mae llawer o blant yn ein hysgol na all gyfathrebu ac mae'r dulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ein galluogi i ddeall a chefnogi pob plentyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Bob dydd, rydym yn ystyried ac yn adolygu dysgu pob plentyn drwy wneud arsylwadau gofalus sy'n galluogi ein tîm i lenwi'r **logiau dysgu** a **siartiau cyfathrebu**. Caiff yr wybodaeth hon ei rhannu ymysg ymarferwyr addysgu a gweithwyr proffesiynol eraill.

Cawn adborth cadarnhaol iawn gan rieni yng nghyswllt y **logiau dysgu** a'r **siartiau cyfathrebu**. Mae'r broses yn eu galluogi i rannu sylwadau a wnaed yn y cartref, sy'n eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn nysgu'r plant. Rydyn wedyn yn rhannu'r offerynnau gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, ac yn ymdrechu i wella sut y cyflwnwn ddysgu a chymorth personoledig ar gyfer ein plant.'

Log dysgu Rhys

Dyddiad	Beth wnaeth y person?	Pwy oedd yno?	Beth wnaethoch chi ddysgu am yr hyn a weithiodd yn dda?	Beth wnaethoch chi ddysgu nad oedd yn gweithio?
24.3.15	Cael ei ginio.	Tri o blant eraill a'r cynorthwyydd addysgu.	Eistedd gyda phlant eraill mae'n eu hoffi. Mae'n hoffi bwyd bys a bawd, ac fe wnaeth fwynhau'r pryd. Mynd i eistedd wrth ei fwrdd cyn y plant eraill.	Ceisiodd roi gormod o fwyd yn ei geg, felly ceisiodd y cynorthwyydd addysgu symud ei blât fel na fyddai'n cael mwy o fwyd nes ei fod wedi gorffen yr hyn oedd ganddo. Nid oedd yn hoffi hyn. Unwaith roedd wedi gorffen ei ginio, roedd eisiau gadael y bwrdd yn syth, a pheidio aros am y plant eraill.

Beth sydd ei angen i ni ddal i'w wneud, a beth sydd angen i ni ei newid?

Ei gadw ar yr un bwrdd am nawr.

Gofyn i'w rieni os oes unrhyw fwydydd nad yw'n eu hoffi.

Ei annog i aros cyn rhoi mwy o fwyd yn ei geg. Gallem wneud hyn ar lafar; os nad yw hyn yn gweithio gellid rhoi cynnig ar system goleuadau traffig.

Gallwn geisio'r un peth i'w annog i aros wrth y bwrdd nes bydd pawb wedi gorffen.

Mwy o fantesision logiau dysgu

Dysgwyr

Mae dysgwyr yn derbyn cefnogaeth fwy personoledig oherwydd bod staff yn deall yn well beth maent ei angen. Gall dysgwyr ddysgu'n fwy effeithiol a gwneud y cynnydd gorau posibl oherwydd y gall staff ddynodi sut i'w helpu. Mae dysgwyr yn manteisio o newidiadau cadarnhaol oherwydd y gall staff ddysgu pa gefnogaeth sy'n ddefnyddiol a beth ddylai fod yn wahanol.

Rhieni

Gall rhieni ychwanegu eu gwybodaeth at eu **log dysgu** a chymryd rhan wrth gynllunio cefnogaeth ar gyfer eu plentyn. Gall rhieni ddysgu pa gefnogaeth sy'n gweithio'n dda ar gyfer eu plentyn yn yr ysgol neu goleg.

Staff ac ysgol neu goleg

Gall staff sylwi ar batrymau yn yr wybodaeth a gasglwyd sy'n eu helpu i ddeall yn well sut i gefnogi dysgwr. Gall yr ysgol neu goleg nodi newidiadau fydd yn helpu un neu lawer o'r dysgwyr i gael cyfleoedd cefnogaeth neu ddysgu gwell. Gall staff gofnodi a rhannu'r wybodaeth fanwl y maent yn aml yn eu cadw yn eu pennau.

Gall cofnodi gwybodaeth eich helpu i gofio: gall creu **log dysgu** eich helpu i lunio neu adolygu **proffil un dudalen**. Gall llywodraethwyr ddefnyddio'r wybodaeth gyfunol a gasglwyd gan lawer o ddysgwyr wrth iddynt weithio ar gynlluniau datblygu, e.e. y cynllun datblygu ysgol.

Cyngor da


- Mae'r offeryn **log dysgu** yn fwyaf defnyddiol pan fydd dysgwyr yn gwneud rhywbeth newydd neu'n cael eu cefnogi gan staff newydd.
- Gall rhai dysgwyr fod eisiau llenwi eu **log dysgu** eu hunain neu wneud hyn gyda chi.
- Gwneud yn siŵr fod amser rheolaidd ar gyfer adolygu **logiau dysgu** a'r wybodaeth a ychwanegwyd at y **broffil un dudalen** neu gofnodion eraill (e.e. mewn cyfarfod tîm rheolaidd).

Offeryn 4 plws 1

Pam defnyddio'r offeryn 4 plws 1?

Mae'r **offeryn 4 plws 1** yn ffordd ddefnyddiol iawn i fyfrio ar sefyllfa neu rywbeth yr ydych wedi'i wneud, p'un ai ydych yn staff neu'n ddysgwr. Mae'n gofyn i chi gydnabod beth weithiodd yn dda a rhannu eich pryderon. Yn bwysicaf oll, mae'n edrych ymlaen at yr hyn y gallwch ei wneud i ateb eich pryderon. O'i hanfod, mae'r offeryn meddwl yma yn eich helpu i ddysgu o brofiad.

Sut i ddefnyddio'r offeryn 4 plws 1



Os ydych yn defnyddio'r offeryn yma mewn grŵp, penderfynwch ar y bobl orau i'w gwahodd: pwy sydd â gwybodaeth a dysgu am y mater? Gwnewch yn siŵr y daw pobl yn barod i rannu eu gwybodaeth.

Un ffordd o ddefnyddio'r offeryn mewn grŵp yw ysgrifennu pob un o'r cwestiynau ar ddalen fawr o bapur a gofyn i bobl ysgrifennu eu sylwadau dan bob pennawd. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod pawb yn teimlo'n gysurus am ysgrifennu; gadewch i bobl wybod nad yw sillafu a gramadeg yn bwysig. Os yw rhywun yn teimlo na allant ysgrifennu, yna gall rhywun arall ysgrifennu drostynt.

Os yw'r dysgwr mewn cyfarfod, gwnewch yn siŵr fod ganddynt y gefnogaeth maent eu hangen i roi eu sylwadau. Os nad ydynt yno, mae'n rhaid i chi wirio unrhyw ddyfalu gorau a wnewch ar eu rhan cyn gweithredu. Cofiwch, mae safbwynt y dysgwr yn ganolog i bob offeryn meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno?

Yn yr adran yma mae angen i chi ddisgrifio'n union yr hyn rydych wedi rhoi cynnig arno. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o fanylion.

Beth ydych chi wedi'i ddysgu?

Peidiwch drysu'r hyn rydych wedi'i ddysgu gyda'r hyn yr ydych yn falch ohono. Mae dysgu yn ymwneud â chanfod gwybodaeth newydd a allai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

Beth ydych chi'n falch ohono?

Mae'n wych rhannu a chydabod llwyddiannau. Mae'r adran yma ynglŷn â neilltuo amser i ddathlu llwyddiannau a dynodi'r hyn sy'n gweithio. Mae hefyd yn gyfle i weithredu mewn ffordd fydd yn diogelu'r hyn mae pobl yn falch amdano, yn enwedig os yw'n canlyniad nas rhagwelwyd i'r hyn y rhoddwyd cynnig arno.

Beth ydych chi'n bryderus amdano?

Gall weithiau fod yn anodd i bobl ganfod cyfle i fynegi eu pryderon am sefyllfa. Mae'r adran yma o'r offeryn yn annog pawb i feddwl am a thrafod y pethau hynny sydd o gonsyrn iddynt a dynodi pa newidiadau sydd eu hangen.

Beth sydd angen i ni wneud nesaf?

Ar ôl i chi gasglu sylwadau pawb, edrychwch ar yr atebion a gofyn i bobl, 'Gan ystyried beth rydym yn ei wybod yn awr, beth fyddwn yn ei wneud nesaf?'

Yna datblygwch gamau gweithredu CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol). Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud pwy fydd yn gwneud beth, pryd, ble a sut. Sicrhewch eich bod yn ychwanegu'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu ar y **proffil un dudalen**, cynllun sy'n canolbwyntio ar unigolyn neu offeryn meddwl perthnasol arall.

Enghreifftiau o'r offeryn 4 plws 1 ar waith

Defnyddio offeryn 4 plws 1 gyda defnyddwyr

Mae Siôn Owen, o ysgol gynradd ddwyieithog yn y gogledd, yn siarad am sut y defnyddiodd yr **offeryn 4 plws 1** gyda grŵp o ddysgwyr yn ei ddosbarth.

'Mae nifer o ferched o Flwyddyn 5 wedi bod yn dadlau yn gyson yn ystod y flwyddyn. Maent wedi ffraeo nifer fawr o weithiau, yn cynnwys am ddadleuon a gawsant gyda'i gilydd dros Skype adref y maent wedi eu parhau yn yr ysgol.



Rydym wedi rhoi cynnig ar nifer fawr o wahanol strategaethau i helpu datrys y materion hyn yn cynnwys sesiynau Rhaglen Cymorth Myfyrwyr a chytundeb rhwng y merched yn nodi rheolau clir i helpu osgoi mwy o ddadlau. Er y bu pethau'n dawel am gyfnod, fe wnaeth y merched ddechrau dadlau eto.

Felly fe wnaethom ni benderfynu defnyddio'r **offeryn 4 plws 1** fel dull gwahanol. Ymatebodd y merched yn dda iddo a gallu gweld yn union beth oedd yn gweithio a beth oedd ddim yn gweithio. Roeddent yn gallu rhannu barn am ba gamau i'w gwneud nesaf a chytuno ar y ffordd orau i symud ymlaen.'

Mwy o fanteision i'r offeryn 4 plws 1

Dysgwyr

Mae'r offeryn meddwl yma'n rhoi ffordd strwythuredig i farn dysgwyr gael ei chlywed. Gall dysgwyr:

- ddynodi'r hyn maen nhw ac eraill wedi eu dysgu o unrhyw sefyllfa
- gydnabod a dathlu'r hyn a weithiodd yn dda
- gweld eich bod yn gwrando o ddifrif ar yr hyn sy'n eu poeni
- gynllunio camau gweithredu i ddatrys yr hyn sy'n eu poeni.

Rhieni

Gall rhieni weld yn glir yr hyn a ddysgwyd mewn sefyllfaoedd yn cynnwys eu plentyn, a beth gaiff ei wneud i ddatrys pryderon. Gall rhieni ddefnyddio'r offeryn meddwl eu hunain i adlewyrchu ar faterion yn ymwneud â'u plentyn eu hunain. Gallant hefyd ddefnyddio'r offeryn i gyfrannu at adolygu materion sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan, efallai mewn nosweithiau rhieni.

Staff ac ysgol neu goleg

Gall staff ddefnyddio'r offeryn meddwl i fesur a dadansoddi effaith ymyriadau newydd. Gall staff a llywodraethwyr ddefnyddio'r offeryn meddwl yma i ofyn am adborth gan rieni, y tîm staff, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn neu'r ysgol neu goleg cyfan i helpu pethau fel cynlluniau datblygu sefydliadol megis y cynllun datblygu ysgol.

Gall staff fyfyrion ar werth prosiectau peilot a gosod camau gweithredu i adeiladu ar y cynlluniau peilot. Gall llywodraethwyr ddefnyddio'r offeryn meddwl fel ffordd o ystyried a dysgu o gyfarchion a chwynion. Os yw'r ysgol neu goleg yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill, mae'r offeryn meddwl yma'n ffordd

werthfawr i adlewyrchu ar y broses o gydweithio a gosod camau gweithredu.

Cyngor da

- Mae'r offeryn meddwl canolbwyntio ar unigolion yma yn ddefnyddiol mewn llawer o sefyllfaoedd, megis cyfarfodydd adolygu, cyfarfodydd un i un rhwng rheolwyr a staff, cyfarfodydd tîm a gwaith unigol gyda theuluoedd.
- Mae'r cwestiynau yn ffordd rymus i ystyried maes neilltuol o fywyd rhywun pan wynebant sefyllfa neu her benodol.
- Mae hefyd yn ffordd wych i ddechrau cyfarfodydd ac yn ddefnydd effeithiol o amser cyfarfod, gan ganolbwyntio sylw pobl ar drafodaethau defnyddiol, datrys problemau a chamau gweithredu.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn defnyddio'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu i ddiweddarau **proffil un dudalen** y dysgwr neu wybodaeth berthnasol arall.

Crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion

Mae'r offerynnau meddwl canolbwyntio ar unigolion yn y llyfr yma'n cynnig ffyrdd grymus a hyblyg i weithio'n unigol gyda phob dysgwr. Gallwch ddefnyddio'r offerynnau meddwl i ddod i adnabod a deall eich dysgwyr yn dda, casglu gwybodaeth mewn modd systematig ac mewn ffyrdd sy'n rhwydd eu rhannu gyda'ch cydweithwyr.

Gyda'r wybodaeth yma, gallwch roi'r gefnogaeth sy'n gywir i'ch dysgwyr chi, pan maent ei hangen. Gallwch arsylwi a mesur pa mor effeithiol yw eich cefnogaeth ar gyfer pob dysgwr a gwneud newidiadau y gallwch eu rhannu gyda phawb o amgylch y dysgwr fel bod y gefnogaeth a roddwch bob amser yn gyson.

Gall eich holl ysgol neu goleg fanteisio o'r offerynnau meddwl yma gan eu bod yn eich galluogi i gasglu gwybodaeth o grwpiau mawr, ei dadansoddi a gweld patrymau. Yn bennaf oll, maent yn rhoi modd i chi wneud penderfyniadau am yr hyn a wnewch nesaf sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac i barhau i brofi ac archwilio effeithiau eich dulliau gweithredu fel y gallwch wella eich ymarfer yn barhaus.

Mwy o wybodaeth am ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

Mae adnoddau eraill am ddim gan Lywodraeth Cymru ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cynnwys y canlynol.

Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion: Offeryn hunanasesu a chamau ymarferol ar gyfer cynnydd
dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/developing-as-a-person-centred-organisation/?skip=1&lang=cy

Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllawiau ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru
dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-reviewstoolkit/?lang=cy

Mae sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth neu hyfforddiant ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cynnwys y dilynol.

Helen Sanderson Associates
www.helensandersonassociates.co.uk/readingroom/

Anabledd Dysgu Cymru
www.ldw.org.uk

Personoli Addysg
www.personalisingeducation.org/